CYRRAEDD

# CYMUNEDAU CROESAWGAR:

# DATBLYGU TWRISIAETH YNG NGHYMRU

Cyhoeddwyd: Gorffenaf 2022
Dr Llyr ap Gareth

@fsb_wales
**fsb.wales**

fsb
Experts in Business
Arbenigwyr mewn Busnes

# CYNNWYS


CYFLWYNIAD 2

RHESTR ARGYMHELLION 3

1. CEFNDIR CYFFREDINOL 8

2. HERIAU TWRISTIAETH 10

3. BRAND CYMRU A'R BRAND PRYDEINIG 19

4. DATBLYGU TWRISTIAETH 26

CASGLIAD – GELERT, MODEL UNFED GANRIF AR HUGAIN 29

ATODIAD: METHODOLEG 30

# CYFLWYNIAD

**Mae gan Gymru storïau i'w hadrodd.**
Mae twristiaeth yn llwyfan i adrodd y storïau hynny, boed hynny ynglŷn â'n treftadaeth, ein hiaith a'n diwylliant, neu hanesion diwydiannau newydd a'n ffocws ar gynaliadwyedd a bwyd lleol o safon yng Nghymru – mae iddynt i gyd effaith ganlyniadol o ran masnach a buddsoddi, wrth ddweud wrth bobl pwy ydym, beth ydym yn rhoi gwerth arno, a beth ydym yn ei wneud yn dda.

Mae twristiaeth yn rhoi ffenestr i Gymru i'r byd, cyfle i rannu'n gwerthoedd a dweud pwy ydym, a beth sydd gennym i'w gynnig.

I fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, mae twristiaeth yn darparu mynediad i'r farchnad ble dichon mai'r 'llwyfan yw'r holl fyd.' Er mai BBaChau yw mwyafrif llethol y chwaraewyr yn y diwydiant, mae'r holl chwaraewyr yng Nghymru yn bwysig. Mae angen i frand Cymru fod o fewn cyrraedd i'r gronfa ehangaf bosibl o randdeiliaid.

Dim ond trwy fod â'r arfau i rannu eu stori y gall BBaChau yng Nghymru adlewyrchu eu gwerthoedd a'u cynnig yn hytrach na'i fod yn cael ei ordeinio oddi uchod. Mae gan Gymru ddyfnder o hanes a diwylliant, felly mae grymuso BBaChau i farchnata hyn eu hunain yn hanfodol.

O gael y cyfle a'r modd i wneud hynny, mae busnesau llai wedi'u lleoli'n berffaith i adrodd – ac i werthu – ein stori i ymwelwyr yng Nghymru, y Deyrnas Unedig, a'r byd. Mae meithrin gallu o'r gwaelod i fyny, ac ar y pethau sydd o bwys iddyn nhw a'u cynulleidfaoedd, yn caniatáu i fusnesau ddarparu ar gyfer llwyfan y tu allan i'r tymhorau prysur, ac ymorol am feithrin sgiliau a marchnadoedd ar gyfer sylfaen fwy cynaliadwy.

Mae holl rannau'r pos yn cyd-atgyfnerthu ei gilydd ac yn gofyn am ffordd strategol unol a holistaidd o weithredu wedi'i seilio ar bileri ymgysylltiad a chyfranogiad BBaChau yn y strategaeth twristiaeth ac wrth ei gweithredu. Yr un mor bwysig yw meithrin y brand a'n storïau o'r gwaelod i fyny, gan ddatblygu gallu a sgiliau'r sector ac alinio'r gwerth i dwristiaid gyda datblygu polisi ehangach trwy agenda cenedlaethau'r dyfodol, a'r agenda ffyniant bro, wedi'u llunio ar gyfer datblygu tymor hir.

Erys effeithiau Covid-19, Brexit a chostau byw yn ansicr dros y tymor hir, o ran effaith cyraeddiadau rhyngwladol, ac o ble maen nhw'n dod. A fydd 'gwyliau gartref' yn ymateb dros dro i amgylchiadau'r farchnad, neu a fydd hyn yn ail-lunio'r farchnad ac a all Cymru elwa?

Mae'r holl ansicrwydd a chwestiynau hyn yn arwain at sector sy'n cael ei ysgwyd gan y stormydd presennol. Mae'n bwysig fod llywodraethau a'u hasiantaethau yn ymorol am gynnig cyfeiriad, wedi'i seilio ar egwyddorion clir sy'n deall gwerth y sector, yn ogystal â sut i ddefnyddio'r sefyllfa bresennol i ddatblygu a thrawsnewid y sector ar gyfer y dyfodol.

Felly, beth yw storïau Cymru a phwy ddylai adrodd y storïau hynny yng nghyd-destun twristiaeth? Sut mae dod â'n storïwyr at ei gilydd, i chwyddleisio neges Cymru gyda dilysrwydd a dyfnder mewn ffordd sy'n cyd-daro â'n profiadau a'n gwerthoedd go iawn? Sut ydym yn dweud wrth y byd pwy ydym a beth ydym yn sefyll drosto?

Mae'r teitl 'Cymunedau Croesawgar' yn cyfleu llawer ochr i'r adroddiad, trwy ailadrodd y croeso parhaol gan ein cymunedau i ymwelwyr, ond mae a wnelo hefyd â chroesawu'r gymuned ehangach yng Nghymru, a'n cymunedau busnes lleol i mewn i'r broses o lunio ein storïau twristiaeth, ein marchnata, a'n strategaethau. Mae gennym i gyd ein storïau i'w hadrodd a'n rhan i'w chwarae wrth lunio sut ydym yn dweud wrth eraill pwy ydym a beth ydym yn rhoi gwerth arno yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r delfryd hwn, ac yn edrych ar sut y gallwn ymorol am ddefnyddio BBaChau i'r eithaf i ddatblygu twristiaeth gynaliadwy i Gymru at y dyfodol.

# RHESTR ARGYMHELLION

## Cyffredinol

- Dylid ymgymryd ag ymgyrch farchnata 'Croeso i Gymru' Ôl-Brexit ac Ôl-brig Covid i'r Deyrnas Unedig, i gynulleidfaoedd rhyngwladol, ac i'r farchnad yng Nghymru

## Adduned ymwelydd

**Dylai Cymru drafod adduned ymwelydd a sut orau i'w farchnata a'i weithredu**

- Byddai hyn yn hyrwyddo ymddygiad moesegol, yn rhannu gwybodaeth am ddiogelwch, archebion, ac argymhellion i wasgaru gweithgaredd (yn ddelfrydol mewn amser real), a hyrwyddo Cymru yn y ddwy iaith.
- Dylai hyn gynnwys partneriaeth gyda'r sector, grwpiau preswylwyr, a hyrwyddo'r adduned ar draws busnesau ledled Cymru gyda gwahoddiadau i arwyddo.
- O ran thema gellid ei gyfeirio at genedlaethau'r dyfodol, wedi'i fodelu ar egwyddorion teithio cynaliadwy 'Peidio â Gadael Dim Ôl'.
- Gall chwarae rhan amlwg hefyd ar wefannau Croeso Cymru a Visit Britain (megis ar y dudalen 'Gwybod Cyn i Chi Fynd'), gyda'r ail yn gyfrwng i edrych ar hyrwyddo Cymru fel brand gwahaniaethol o fewn Prydain ac wedi'i alinio â datblygu brand twristiaeth cynaliadwy wedi'i seilio ar bolisi 'cenedlaethau'r dyfodol' ehangach yng Nghymru.
- Dylai Llywodraeth Cymru drafod defnydd Ap Croeso Cymru, gan drafod ei ddefnydd fel porth digidol ac wrth ddarparu cysylltau di-dor at bwniadau ymddygiad ymwelwyr a chynghorion diogelwch, data amser real ar gyfnodau brig ymwelwyr ac ardaloedd eraill i ymweld â nhw, a rheoli a gwthio i hyrwyddo ffyrdd mynediad gwahanol i ardaloedd, yn ogystal â chysylltiadau at wybodaeth am drafnidiaeth.
- Dylai hyn ymorol am sut y gallwn ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd trwy ymagwedd ehangach ar farchnata a defnyddio (er enghraifft) BBaChau a defnydd eu hunain trefi unigol o'r system i fwyhau curadaeth leol y profiad ymwelwyr.

## Rheoliadau

**Mae rheoleiddio cyson a theg yn bwysig i fusnesau bach i ddarparu tegwch yn y farchnad, yn arbennig mewn perthynas â'r 'economi anffurfiol.' Serch hynny, rhaid ei wneud ar sail glir, resymegol, a chymesur, er mwyn cadw ymddiriedaeth y sector a'r gymuned leol fel ei gilydd, a'i fod yn cael ei fonitro am ganlyniadau anfwriadol.**

- Dylai strategaeth reoleiddiol ffitio o fewn ffordd strategol 'meddwl yn fach yn gyntaf' ehangach o weithredu sydd o blaid busnes trwy Fil Datblygu Economaidd, fel yr argymhellwyd mewn adroddiadau eraill gan FSB Cymru.
- Ni ddylai rheoleiddio – neu ddiffyg gorfodi gan awdurdodau – arwain at effaith annheg ar fusnesau cyfreithlon.
- Rhaid i unrhyw drothwy newydd fod wedi'i gysylltu'n rhesymegol â gweithgaredd tymhorol (e.e., nifer y diwrnodau y disgwylir bod yn weithredol), neu wedi'i gysylltu â faint o ddiwrnodau y byddem yn ei ddisgwyl mewn tymor twristiaeth cyffredin a'i fesur ar sail glir a rhesymegol.
- Mae'r farchnad ymwelwyr twristiaeth ôl-Covid bresennol yn ansicr ac ansefydlog iawn, ac felly dylai dadansoddiad o'r farchnad o'r fath gymryd hyn i ystyriaeth mewn sail resymegol ar gyfer trothwyon newydd. Un ffordd bosibl o ddelio â hyn yw codi'r trothwy yn gynyddrannol ochr yn ochr â phroses adolygu i glustnodi'r effeithiau ar y farchnad.
- Mae'n ymddangos fod y gyfundrefn drwyddedu arfaethedig newydd wedi'i hanelu at enwi busnesau, ac felly'n ymdrin â'r ofn efadu trethi a defnydd anghyfreithlon o'r system trethi busnes i osgoi'r dreth gyngor. Dylai unrhyw gyfundrefn drwyddedu gael ei hystyried ar sail resymegol ar gyfer y trothwyon newydd, fel dull arall o enwi busnesau cyfreithlon yn y maes hwn.

- Gellid defnyddio cyfundrefn drwyddedu hefyd i ddarparu deunyddiau i ymgysylltu â'r ymwelwyr trwy'r busnesau eu hunain, ar sail cyd-greëdig (gweler y bennod nesaf).
- Gellid alinio trothwyon i ddarparu cysondeb, megis yr argaeledd 210 diwrnod a 105 arhosiad dros nos a osodwyd gan CThEM.

## Brand Cymru

**Dylai brandio a rheoli cynnwys fod ar sail model datganoledig i sicrhau y gellir cyrchu cynnwys a marchnata o gronfa fwy gwasgaredig o ddelweddau a storïau.**

- Dylai hyb Digidol ar gyfer cynnwys a gynhyrchir gan y defnyddiwr gael ei greu i BBaChau greu eu deunyddiau eu hunain ar gyfer eu marchnata eu hunain dan frand Cymru.
- Byddai'r cynnwys hwn yn cael ei fonitro a'i fesur wedyn ar gyfer meysydd newydd o farchnata llwyddiannus trwy ddull gweithredu datganoledig sy'n ymorol am ddefnyddio profiad ac arbenigedd BBaChau eu hunain yn eu marchnadoedd eu hunain i helpu dull gweithredu cyffredinol Croeso Cymru.
- Byddai mynediad gan BBaChau i'r hyb digidol i lunio eu marchnata eu hunain yn ddibynnol ar ymgofrestru â'r adduned a'r cod ymddygiad, ar ledaenu unrhyw adduned ymwelydd a dylai Defnyddwyr gytuno ar fonitro data gan Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru i olrhain ymgyrchoedd llwyddiannus.
- Dylai cyfieithu am ddim gael ei drafod fel opsiwn trwy gydol y broses yma.
- Dylai Croeso Cymru a Visit Britain weithio â'i gilydd gyda'r FAW i hyrwyddo Cymru fel y wlad leiaf i gymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd 2022 a datblygu'r cyfleoedd sy'n dod o Gwpan y Byd ynghyd â phartneriaid mewn busnes.
- Dylai'r iaith Gymraeg gael ei defnyddio'n well fel 'bachyn', a'i thargedu'n arbennig ble gall hyn godi ymwybyddiaeth a diddordeb yn rhyngwladol, megis mewn cytundebau masnach yn y dyfodol.
- Dylai'r iaith Gymraeg gael ei gweld fel mantais gymharol i frandio ac adrodd storïau Cymru.
- Dylid ei harneisio ar gyfer deunyddiau hyrwyddo, a dylid ei defnyddio fel bathodyn gwahaniaethu a dilysrwydd yn rhyngwladol o fewn brand Cymreig ac o fewn brand Prydeinig.
- Mae angen i seilwaith trafnidiaeth gael ei alinio â pholisi twristiaeth, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, gyda golwg ar ddatblygu'r brand cynaliadwy / ecodwristiaeth.

## Gwerth a Threth Twristiaeth

**Ar adeg o gostau cynyddol ac adferiad economaidd wedi pallu, mae trafodaethau ar fwy o dreth yn ddi-fudd, felly dylid peidio ag ystyried treth twristiaeth o leiaf hyd nes bod adferiad yn yr economi.**

- Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth lleol leihau'r costau wrth wneud busnes yn yr hinsawdd bresennol, yn cynnwys mesurau megis gostwng y gyfradd TAW yn ôl i 12.5%, diddymu'r codiad yn y Cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol, a rhyddhad ardrethi busnes wedi'i dargedu.
- Nid treth yw'r unig fodel ar gyfer cipio gwerth. Mae angen bod gwerthusiad o sut mae gwerth yn cael ei greu'n lleol gan BBaChau yn barod, ac o unrhyw ganlyniadau gwrthnysig posibl ble mae creu gwerth cymdeithasol yn cael ei wthio o'i le gan dreth twristiaeth.
- Mae angen i dreth twristiaeth roi cyfrif am y marchnadoedd ymwelwyr sy'n newid, ac mae angen i asesiad o effaith unrhyw dreth fod yn gliriach nag ar hyn o bryd.
- Rhaid i'r sail resymegol ar gyfer y dreth a'r cyswllt â gwariant llywodraeth fod yn glir – nid yw 'i ymwelwyr dalu i mewn am wasanaethau cyhoeddus' yn rhoi manylion ac nid yw'n arwain at neilltuo clir.
- Megis gydag unrhyw dreth newydd, dylai treth twristiaeth ymorol am gael ei datblygu ac i allu bod yn atebol i egwyddorion trethu da.
- Dylai unrhyw dreth alinio â strategaeth datblygu twristiaeth ehangach, a dylai model sy'n annog ymgysylltu gan BBaChau a pherchnogaeth ar strategaeth gael ei drafod.
- Dylai asesiad o effaith treth newydd fel anghymhelliad i BBaChau gweithgaredd gwerth cymdeithasol eraill gael ei wneud cyn i unrhyw dreth gael ei gweithredu.

### Gwasgaru twristiaid yn ystod y flwyddyn ac ar draws lleoliadau

**Dylai brandio ymorol am farchnata gwahanol rannau o Gymru, gan alinio siwrnai'r ymwelydd o'r cyfnod marchnata a chynllunio'r siwrnai drwodd i gyrraedd a diwedd y siwrnai.**

- Dylai marchnata ymorol am wasgaru ymwelwyr trwy ddefnyddio ffyrdd i ddenu ymwelwyr yn y tymor tawel, ac fel profiad cadarnhaol.
- Dylai diwrnodau unigryw, gwahaniaethol y tu allan i'r tymor twristiaid prysur megis 'dydd Santes Dwynwen' gael eu defnyddio gyda golwg ar breimio'r diwydiant a masnach busnes yn y cyfnodau hynny.
- Dylai marchnata ymorol am ddarparu marchnata teg a chanolbwyntio ar wasgaru ymwelwyr i ardaloedd newydd.
- Dylai ardaloedd 'didramwy' gael eu brandio a'u hyrwyddo, megis gyda llwybrau amgen Gwlad yr Iâ.
- Dylai'r seilwaith trafnidiaeth gadw gwasgaru i ardaloedd twristiaid newydd mewn cof fel nod. Er enghraifft, dylai twristiaeth treftadaeth Ddiwydiannol gael ei alinio â'r Metro newydd, ochr yn ochr â dulliau o dynnu ymwelwyr 'digwyddiadau mawr' o Gaerdydd i gyrchfannau llinellau'r Cymoedd.

### Meithrin sgiliau

**Meithrin sgiliau tuag at ddatblygu diwydiant twristiaid gydol y flwyddyn.**

- Mae meithrin sgiliau'n eistedd ar draws y strategaeth ehangach a fyddai'n darparu ysgogiad i feithrin sgiliau i ddarparu cynnwys o'r gwaelod i fyny gan BBaChau eu hunain i feithrin capasiti a galluoedd.
- Dylai Prentisiaethau Cymreig ymorol am lunio gyrfaoedd blaengar mewn twristiaeth gydag achrediad am sgiliau allweddol.
- Dylai datblygu tuag at gynnig ecodwristiaeth alinio â meithrin capasiti mewn BBaChau gyda sgiliau gwyrdd a datgarboneiddio ar draws pob sector.
- Dylai'r Warant i Bobl Ifanc ymorol am adeiladu ar gyfleoedd o'r fath.
- Dylai sgiliau ffitio o fewn achrediad a chanolbwyntio ar lunio llwybrau cynnydd a gyrfaoedd o fewn y sector. Mae hyn yn ffitio ochr yn ochr â chynnig twristiaid gydol y flwyddyn a chyflogaeth fwy sicr.

### Gŵyl Banc Dydd Gŵyl Dewi

**Mae consensws cynyddol o blaid Gŵyl Banc Dydd Gŵyl Dewi sydd â chefnogaeth drawsbleidiol yng Nghymru.**

- Mae angen bod dadansoddiad o fanteision economaidd ac effaith unrhyw ŵyl banc bosibl.
- Byddai angen i hyn alinio â datblygiad ehangach mwy tymor hir tuag at ddiwydiant gydol y flwyddyn a datblygiad sgiliau, a phreimio busnesau ar gyfer gweithgaredd.
- Dylai'r marchnata ar gyfer unrhyw ŵyl arfaethedig hyrwyddo Dydd Gŵyl Dewi fel amser tawelach i ymweld.

### Masnach ryngwladol

**Dylai Croeso Cymru a Visit Britain ymorol am Gytundebau Masnach Rydd newydd ac unrhyw brosesau masnach a buddsoddi newydd gan y DU i hyrwyddo Cymru fel marchnad segmentiedig.**

- Dylai Croeso Cymru a Visit Britain weithio â'i gilydd gyda'r FAW i hyrwyddo Cymru fel y wlad leiaf i gymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd 2022 a datblygu'r cyfleoedd sy'n dod o Gwpan y Byd ynghyd â phartneriaid mewn busnes.

## Sbardunwyr polisi allweddol

**Adferiad Covid-19**

Roedd Twristiaeth a Lletygarwch ymhlith y pethau a drawyd galetaf gan Covid-19. Mae busnesau twristiaeth wedi wynebu cyfres o 'dymhorau gaeaf,' yn ogystal â cholli'r rhan fwyaf o fasnachu Nadolig. Er bod gwyliau gartref yn haf 2021 yn gadarnhaol, mae'r aelodau'n dweud nad yw hyn yn cwrdd â'r costau a'r dyledion a grynhowyd ac mae'r arwyddion sy'n ymddangos yn awgrymu bod y farchnad hon yn disgyn yn ôl wrth i bobl fynd yn ôl i deithio'n rhyngwladol

Mae hyn yn golygu bod busnesau mewn sefyllfa arbennig o fregus. Mae cymorth y llywodraeth wedi bod i'w groesawu, ac roedd angen y cymorth i'r sector fel y cyflogwr ail fwyaf yng Nghymru yn 2019 ac i sicrhau adferiad i ddiwydiant allweddol cynaliadwy ar gyfer dyfodol Cymru.

**Costau cynyddol**
Mae effaith y pandemig a'r cyfnodau clo oedd yn dilyn wedi rhoi busnesau bach yng Nghymru mewn sefyllfa fregus. Nid yn unig y mae biliau egni cynyddol, llai o wariant gan ddefnyddwyr, a phryderon ynghylch y gadwyn gyflenwi wedi cyfrannu at yr argyfwng costau byw cyffredinol, ond mae'r cymorth a gychwynnwyd i gadw busnesau trwy'r pandemig wedi diflannu ers hynny.

Mae ardrethi busnes y sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu wedi cynyddu o gyfradd is o 100% o ryddhad i 50%. Mae'r gyfradd TAW is wedi codi o 12.5% yn ôl i fyny i 20%. Yn y cyfamser, mae costau ychwanegol megis cyfraniadau yswiriant cenedlaethol yn codi o 1.5% i gyflogwyr yn gwaethygu pethau i fusnesau sydd eisoes dan bwysau ariannol.

Yn ogystal, mae pryderon ynghylch y gadwyn gyflenwi sydd yno'n barod oherwydd Brexit a'r pandemig wedi'u gwaethygu gan y rhyfel yn Wcráin.

Mae'r rhain i gyd yn cysylltu â'r angen am gymorth tymor byr wedi'i alinio â chynllun mwy tymor hir i ddiogelu a datblygu diwydiannau a chyflogwyr ar gyfer tueddiadau'r dyfodol.

**Newidiadau marchnad ansicr**
Mae newidiadau economaidd seismig wedi arwain at fwy o ansicrwydd yn y farchnad. A fyddwn ni'n gweld llai o deithio rhyngwladol ac o wledydd yr UE? A fydd yna gyfleoedd newydd yn y farchnad fyd-eang? A yw 'gwyliau gartref' yma am y tymor hir? Mae'r argyfwng costau byw wedi arwain at fwy o gostau busnes a llai o incwm gwario i lawer o deuluoedd a darpar ymwelwyr hefyd.

Mae'r ansicrwydd yn galw am ymagwedd hyblyg sy'n sicrhau y gallwn gydio yn unrhyw gyfleoedd newydd wrth inni gadw llygad ar yr hyn yr ydym yn dymuno ei gyflawni wrth ddatblygu'r sector at y dyfodol.

**Yr amgylchedd a datgarboneiddio**
Mae angen i'r economi drawsnewid i sero net, a rhaid i hyn gynnwys twristiaeth hefyd. Mae yna lawer o heriau yma i'r model prif ffrwd o fesur llwyddiant trwy niferoedd twristiaid yn unig, gan fod yna bryderon cynyddol ynghylch dirywio amgylcheddol sy'n cael ei achosi gan dwristiaeth ddiatal, nas rheolir, yn arbennig ar safleoedd o brydferthwch nodedig.

Mae'r cydbwysedd yn y ddarpariaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol hefyd i sicrhau bod profiadau twristiaid ar gael ar gyfer y dyfodol a bod twristiaeth yn cael ei chadw fel cynnyrch daioni cymdeithasol a lles sydd ar gael yn deg. Mae hyn wedi'i rwymo wrth bolisïau ehangach ynglŷn â datgarboneiddio, gan ddarparu cynnig 'ecodwristiaeth' dilys, sydd o bosibl yn darparu stori arall i Gymru gyfoes ei hadrodd.

**Diwydiant a datblygu sgiliau**
Mae adroddiad y Pwyllgor Gwaith Teg yn nodi twristiaeth a lletygarwch ymhlith y diwydiannau sydd â chrynoadau uchel o waith isel ei dâl.[1] Mae'r busnesau hyn yn ffurfio maes nas gwerthfawrogir ddigon yn aml o ran datblygu sgiliau, ac mae yna feysydd o botensial i'w datblygu ar sgiliau. Byddai datblygu yn meithrin capasiti hefyd ac yn arwain at ddiwydiant cryfach.

Sut allwn ni ddatblygu'r diwydiant i ddarparu mwy o sicrwydd gydag ymwelydd gydol y flwyddyn, ac ymgorffori cynnydd ar sgiliau yn y system? Mae angen i feithrin capasiti alinio gyda thwf i'r diwydiant a chyfleoedd newydd i brif-ffrydio sgiliau newydd ar ddatgarboneiddio neu ddigidol ym mhob busnes twristiaid, arloesi a sgiliau sy'n arwain at ymchwydd llanw sy'n codi pob cwch.

Mae'r prinder sgiliau yn y diwydiant ar hyn o bryd yn enbyd – mae angen i ddenu gweithwyr ffurfio strategaeth glir i'r sector yn awr, ac ysgogiad i fynd i'r afael â hyn o fewn gweledigaeth ehangach ar gyfer datblygu sgiliau ac addysg sgiliau ymarferol.

[1] Gwaith Teg Cymru: Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg (Mawrth: 2019), ar gael ar: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/fair-work-wales.pdf

# 1. CEFNDIR CYFFREDINOL

Mae twristiaeth yn ddiwydiant allweddol. Yng Nghymru, mae'n chwarae rhan arwyddocaol wrth osod diwylliant, brand a gwerthoedd Cymru ar y map i gynulleidfaoedd byd-eang.

Mae'n rym economaidd sy'n cysylltu ar draws sawl maes manwerthu yn ogystal â lletygarwch, mae'n darparu gwell marchnad i nwyddau a brandiau, ac mae'n cynnig cyfleoedd enfawr i arddangos a manteisio ar y diwylliant Cymreig yn ogystal â'n gwasanaethau twristiaid, gan ddod â mwy o fuddsoddiad i mewn ar draws gwahanol feysydd.

## Strategaeth twristiaeth llywodraeth y DU yng Nghymru

**Fel y'u gosodwyd gan Lywodraeth y DU, pum blaenoriaeth strategol Visit Britain yw:**

- tyfu gwerth twristiaeth i'r economi
- cefnogi cynhyrchiant y diwydiant twristiaeth
- gyrru gwasgariad gwerth twristiaeth i'r gwledydd a'r rhanbarth
- sicrhau twf twristiaeth i Brydain
- bod yn gynghorwr arbenigol i Lywodraeth y DU a'r diwydiant ar dyfu twristiaeth.

Mae strategaeth adfer y DU yn cydnabod yr effaith enfawr a achoswyd gan y pandemig, gan fod data a rhagamcaniadau gan Oxford Economics "ddim yn rhagweld y bydd twristiaeth yn y DK yn dychwelyd yn llawn i lefelau 2019 o ran maint a gwariant tan 2025… 'dyw'r rhagolygon hyn yn syml iawn ddim yn ddigon cyflym i sector gyda chymaint i'w gynnig."

**Fel y cyfryw, mae'r strategaeth yn ymorol am yr amcanion canlynol:**

- Adfer maint a gwariant tripiau dros nos domestig i lefelau 2019 erbyn diwedd 2022, a niferoedd a gwariant ymwelwyr rhyngwladol erbyn diwedd 2023.
- Sicrhau bod adferiad y sector o fantais i bob gwlad a rhanbarth, arosiadau hirach, gan dyfu graddfeydd meddiannaeth llety, a buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth.
- Creu diwydiant mwy arloesol a chryf, mwyhau technoleg a data ar gyfer profiad ymwelwyr a chyflogi mwy o ddinasyddion y DU mewn swyddi o safon gydol y flwyddyn.
- Sicrhau bod twristiaeth yn cyfrannu at wella a chadw treftadaeth ddiwylliannol, naturiol a hanesyddol y wlad, yn lleihau niwed i'r amgylchedd a'i bod yn gynhwysol a hygyrch i bawb.
- Mynd yn ôl i'r sefyllfa cyn y pandemig fel un o'r prif gyrchfannau ar gyfer croesawu digwyddiadau busnes.

Mae'r strategaeth yn nodi'r angen hefyd i ailadeiladu cynnig ehangach y DU y tu allan i Lundain, gyda 55% o wariant ymwelwyr rhyngwladol yn 2019 yn Llundain. Fel y cyfryw, mae'r strategaeth yn ddibynnol ar gynnydd ehangach ar yr agenda Ffyniant Bro, ac felly rhaid i'r strategaeth gysylltu â strwythur cymorth i fusnesau clir. Mae'r FSB wedi mynd i'r afael â'n pryderon yn ein hadroddiad diweddar 'Creu Busnesau: Creu Cymunedau.'[2]

[2] Lap Gareth, 'Creu Busnesau: Creu Cymunedau trwy Gymorth Busnes' (FSB: 2022), ar gael https://www.fsb.org.uk/resource-report/building-business.html

# EFFAITH ECONOMAIDD

**I ddeall y grym hwnnw, ei botensial a'i werth, mae'r niferoedd yn siarad drostynt eu hunain:**
Yn ogystal â'r ffigurau hyn, mae yna fanteision canlyniadol ehangach wrth ennill eiriolwyr dros ddefnyddwyr bwyd a diod Cymreig, diwylliant, ac arbenigaethau masnach ehangach. Mae ein hadroddiadau allforio wedi nodi bod BBaChau sy'n allforio yn gwneud hynny ar sail ad-hoc, ac felly mae cynyddu cyswllt ac ehangu cysylltiadau'n ychwanegu cyfleoedd ar gyfer gweithgaredd masnach, ac o bosibl yn darparu cysylltiadau anffurfiol ar gyfer buddsoddi pellach.[3]

**Yn 2019, roedd twristiaeth i gyfrif am**



**10.4%** o gynnyrch domestig gros y DU

**10.3%** o gynnyrch domestig gros y byd

**17.6%** o gynnyrch domestig gros Cymru



Yn 2019 roedd twristiaeth i gyfrif am
**161,000**
o swyddi yng Nghymru
**(12.1% o gyflogaeth yng Nghymru)**



Yn fyd-eang cofnodwyd
**1.5billion**
**o gyraeddiadau rhyngwladol yn 2019**



Yn 2019 roedd gwariant ymwelwyr rhyngwladol yn y DU yn werth
**£35.6bn**



tra oedd gwariant domestig yn werth
**£155.7bn**
**(10.1bn a 58.9bn yn 2020)**

Gwelodd 2019
**£6.0 biliwn**
o wariant cysylltiedig ar dripiau twristiaeth yng Nghymru:

**£515 miliwn** gan ymwelwyr rhyngwladol

**£3,447 miliwn** ar ymweliadau dydd twristiaeth gan breswylwyr Prydain Fawr

**£2,003 miliwn** ar ymweliadau dros nos gan breswylwyr Prydain Fawr





Yn 2019, roedd
**10,698,000**
**o dripiau domestig dros nos Prydain Fawr i Gymru.**



Yn 2019, roedd
**87,300,000**
**o ymweliadau dydd twristiaeth yng Nghymru**



Yn 2019
**1,023,000**
o dripiau rhyngwladol i Gymru,
**gyda gwariant o £515 miliwn**[4]

[3] Destination Export (FSB: 2016), ar gael ar https://www.fsb.org.uk/resources-page/destination-export.html
[4] Daw'r holl ffigurau o: World Travel & Tourism Council, UN World Tourism Organisation, Proffil Economi Ymwelwyr a Pherfformiad Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2019

## Strategaeth twristiaeth llywodraeth Cymru

Cafodd Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 – 2025, ei lansio ym mis Ionawr 2020. Ei uchelgais datganedig yw tyfu twristiaeth gyda ffocws ar ddatblygu sgiliau, twf economaidd teg, cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol ac iechyd a lles.

Bydd y brand Cymru Wales yn cael ei ddarparu gan ddiwydiant digidol yn gyntaf a datblygiad 'Canolfan Ragoriaeth' Croeso Cymru ar gyfer arloesi digidol. Bydd y Ganolfan yn gweithredu fel hyb corfforol i'r brand, lle creadigol i weithwyr proffesiynol yn y sector weithio gyda'i gilydd yn ogystal â rhedeg gweminarau i fusnesau.

Mae'r pandemig wedi cael effaith ar yr amcanion a gyhoeddwyd yn 2020. Newidiodd Croeso Cymru eu hymgyrch amlwg o "Ymweld â Chymru" yn niwedd Mawrth 2020 i "Hwyl fawr. Am y tro." Fe wnaeth effaith y neges gref hon, yn ogystal â'r gofynion cyfreithiol i 'Aros Gartref' weld gostyngiad sylweddol yn yr ymwelwyr wrth gwrs. Yn awr fod y gofynion cyfreithiol wedi dod i ben, roedd y busnesau bach y bu inni siarad â nhw mewn grwpiau ffocws ar gyfer yr adroddiad hwn yn awyddus i nodi angen i wthio dull gweithredu 'croeso'n ôl i Gymru'. Bydd angen rhoi ystyriaeth i strategaethau brand yn y dyfodol i symud y diwydiant heibio i'r dirwedd ôl-Covid.

**Argymhelliad:**

- Dylid ymgymryd ag ymgyrch marchnata 'Croeso i Gymru' Ôl-Brexit ac Ôl-brig Covid i'r DU, i gynulleidfaoedd rhyngwladol, ac i'r farchnad yng Nghymru.

# 2. HERIAU TWRISTIAETH

Mae'n hawdd yn aml gweld dadleuon ynghylch ymwelwyr fel mater sy'n benodol leol neu Gymreig, o wybod mai yn y wasg leol y byddai rhywun yn dod ar draws y storïau hyn. Er hynny, mae'n werth edrych ar enghreifftiau yn fyd-eang:

- Seland Newydd: Bu'n rhaid achub Grŵp Taith oedd yn ceisio cerdded yn droednoeth at Fynydd Ngauruhoe, gan ail-greu ymdaith yr Hobbits i Mount Doom Lord of the Rings.
- Nepal: Ciw o ddringwyr yn tagu copa 'parth marwolaeth' Mynydd Everest.
- Canolfan hanesyddol Amsterdam yn dod yn bryder diogelwch oherwydd heidio yn agos i gamlesi gan arwain at bobl yn disgyn i mewn i'r dŵr.
- Rhufain – Mae eistedd ar y Grisiau Sbaenaidd wedi'i wahardd yn awr.
- Fenis – Twristiaid yn ymdrochi'n noethlymun yn y camlesi.
- Japan – Twristiaid yn rhedeg ar ôl Geishas i lawr y stryd. [5]

Tra bod y cwynion hyn yn gallu gwneud copi ac abwyd clicio gwych, gallant hefyd fod yn gyfrwng i lunio neu atgyfnerthu naratif 'ni a nhw'.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu creu twristiaeth anghynaladwy hefyd mewn ardaloedd nad oes ganddynt y capasiti i ymdopi â nhw. Mae yna bryderon ynghylch heidio o amgylch ardaloedd 'pot mêl' – ac mae i Gymru ei chyfran o storïau yn y cywair hwn.

Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch rôl twristiaeth foesegol a chynaliadwy, o ran disgwyliadau ymwelwyr fel twristiaid moesegol ac o ran rôl cyrchfannau wrth reoli twristiaeth a sicrhau ei bod yn lledaenu ac yn gwasgaru mewn modd hydrin sy'n cynnig gwell manteision i ymwelwyr a phreswylwyr fel ei gilydd.

### Twristiaeth a phreswylwyr

Mae dirnadaeth yn bwysig a 'dyw naratif 'ni a nhw' ddim yn gwneud unrhyw ffafr â neb. Eto i gyd, mae'n bwysig fod pryderon y cyhoedd yn cael sylw ac yr eir i'r afael â nhw. Mae hyn yr un fath â rheoli unrhyw dyrfa fawr o bobl, lliniaru effeithiau grwpiau mawr yn cyrraedd ar yr un pryd. Mae hyn yn rhoi cyfle ar gyfer ymyriad a rheolaeth polisi, ac i ddarparu sicrwydd i gymunedau preswylwyr fod y system wedi'i gerio i'w mantais nhw yn ogystal ag yn darparu gweledigaeth ar gyfer sut y mae Cymru'n cysylltu ei hun â phrofiad ymwelwyr.

Yn union fel y mae penawdau twristiaeth lleol yn rhyngwladol yn dangos nad yw Cymru'n unigryw yn yr heriau y mae'n eu hwynebu, mae gwledydd, rhanbarthau ac ardaloedd eraill wedi darparu polisïau i ddelio â phroblemau ac i fwyhau'r manteision. Os symudwn ni i weld twristiaeth yn fwy strategol fel diwydiant sydd wrth wraidd ein heconomi, rhaid inni wedyn gefnogi busnesau i fwyhau gwerth, tra byddwn yn rheoli ei dosbarthiad a'i heffaith hefyd.

### Cynnig allweddol: Addunedau ymwelwyr a pheirianweithiau i bwnio ymddygiad

Mae gwledydd a rhanbarthau yn cynnwys Gwlad yr Iâ, Seland Newydd, Colorado, Yellowstone, Big Sur, a Hawäi wedi mabwysiadu addunedau twristiaid i ddylanwadu ar ymddygiad twristiaid.

Gan gyfeirio at ymchwil o 'Gadael Dim Ôl' mae adduned a chynghorion ar lwybrau a gwaredu gwastraff 'Are you Colo-ready?' Colorado yn dilyn y dull gweithredu hwn gan mai'r 'ffordd orau i ddylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr yw yn y cyfnod cynllunio.'[6]

Mae adduned Gwlad yr Iâ'n cynnwys addewid i dynnu lluniau'n ddiogel a dim ond i wersylla mewn ardaloedd dynodedig, ac mae wedi'i gysylltu â phlatfform 'SafeTravel.is', a ariennir yn gydweithredol, sy'n darparu ar gyfer archebu teithiau a gwybodaeth diogelwch penodol i weithgaredd, cyflwr y tywydd, gyda'r argymhellion i gyd ar gael yn ddigidol trwy ap ffôn clyfar.

[5] M Honey & K Frenkiel, Overtourism: Lessons for a Better Future (Island Press: 2021); CNN Travel, 'Is the conduct of tourists getting worse?' https://edition.cnn.com/travel/article/tourists-behaving-badly/index.html
[6] Ibid

Mae'r "Addewid Tiaki-Gofal am Seland Newydd," yn annog pob ymwelydd (a phreswylydd) yn Seland Newydd i ymrwymo i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n diogelu'r amgylchedd, yn parchu diwylliant, ac yn cadw pawb yn ddiogel:

> *"Wrth deithio yn Seland Newydd byddaf yn: gofalu am dir, môr a natur, gan droedio'n ysgafn a heb adael dim ôl; yn teithio'n ddiogel, gan ddangos gofal ac ystyriaeth i bawb; a pharchu diwylliant, gan deithio gyda chalon a meddwl agored."*

Mae gwlad Micronesaidd Palau wedi gosod ei hadduned ar ei thudalen fisa, gan fynnu ei bod yn cael ei harwyddo wrth ddod i mewn. Yn fwy arwyddocaol i Gymru efallai, mae wedi'i chyfeirio at y genhedlaeth nesaf:

> *"Blant Palau, cymeraf yr Adduned hon, i gadw ac i ddiogelu'r ynys sy'n gartref prydferth ac unigryw ichi. Addunedaf i droedio'n ysgafn, i weithredu'n garedig, a fforio'n ystyriol. Ni fyddaf yn cymryd yr hyn nad yw'n cael ei roi. Ni fyddaf yn niweidio'r hyn nad yw'n fy niweidio i. Yr unig olion traed y byddaf yn eu gadael yw'r rheini a fydd yn golchi ymaith."*

Mae gan Gymru ei hadduned ei hun, 'Addo'. Fe'i lansiwyd i annog ymweliadau â Chymru wrth i'r economi ymwelwyr agor yn sgil cyfyngiadau Covid-19. Mae lle i ddatblygu a gwreiddio'r syniad hwn ymhellach.

Fel y nodir yn y deunydd darllen, 'dyw adduned ymwelydd (a phreswylydd) ddim yn gwneud llawer ar ei phen ei hun – mae i adduned Seland Newydd gefnogaeth chwaraewyr allweddol yn y diwydiant ac ar draws llywodraeth, gweithredwyr, a busnesau yn ogystal â phreswylwyr i greu ymwybyddiaeth o'r adduned. Ar draws yr holl wledydd a grybwyllwyd, mae normau cymdeithasol a llywodraethu cydgysylltiedig yn cael eu hystyried yn allweddol i lwyddiant, a 'dyw'r adduned ond y rhan sy'n wynebu'r cyhoedd o'r strategaeth ehangach honno.[7]

Fel y cyfryw, byddai adduned a ddatblygwyd ar draws lefelau llywodraethau, cyrff sefydliadol a gyda busnesau yn darparu modd o rannu a chreu stori gyffredin i ymwelwyr a phreswylwyr o'r hyn y mae lletygarwch Cymru'n ei olygu a'r cyfrifoldebau a'r normau perthynol ac yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neilltuol. Byddai adduned o'r fath yn gyfan gwbl gyson â naratif a bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru.

Byddai BBaChau yn hanfodol i ddosbarthu gwybodaeth ac felly mae'n bwysig eu bod yn cymryd rhan yn y broses, yn gweld ei gwerth, a sut fyddai hyn yn ffitio gyda chynigion gweinyddol eraill (megis petai ardoll dwristiaeth neu gyfundrefn drwyddedu).

**Argymhellion:**

**Dylai Cymru drafod adduned ymwelydd a sut orau i'w marchnata a'i gweithredu.**

- Byddai hyn yn hyrwyddo ymddygiad moesegol, rhannu gwybodaeth am ddiogelwch, archebion, ac argymhellion i wasgaru gweithgaredd (yn ddelfrydol mewn amser real), ac yn hyrwyddo Cymru yn y ddwy iaith.
- Dylai hyn gynnwys partneriaeth gyda'r sector, grwpiau preswylwyr, a hyrwyddo'r adduned ar draws busnesau ledled Cymru gyda gwahoddiadau i'w harwyddo.
- O ran thema gellid ei chyfeirio at genedlaethau'r dyfodol, wedi'i modelu ar egwyddorion teithio cynaliadwy Gadael Dim Ôl.
- Gall chwarae rhan amlwg hefyd ar wefannau Croeso Cymru a Visit Britain (megis ar y dudalen 'Gwybod Cyn Ichi Fynd'), gyda'r ail yn gyfrwng i edrych ar hyrwyddo Cymru fel brand gwahaniaethol o fewn Prydain ac wedi'i halinio â datblygu brand twristiaeth cynaliadwy wedi'i seilio ar bolisi 'cenedlaethau'r dyfodol' ehangach Cymru.

[7] Ibid

## Tai a'r gweithlu lleol

Un o'r materion mwy cymhleth a godir gan dwristiaeth, yn arbennig platfformau newydd fel Airbnb, yw'r effaith ar dai i breswylwyr lleol, gyda phrotestiadau'n cael eu gweld ar draws llawer o ddinasoedd Ewropeaidd ac ar draws ardaloedd gwledig gyda'r stoc leol o dai yn gyfyngedig. Yng Nghymru, mae'r drafodaeth hon yn cael ei chysylltu'n aml hefyd â'r sgyrsiau ehangach ynghylch fforddiadwyedd cartrefi mewn cyrchfannau twristiaid poblogaidd.Mae i'r rhain amrywiol effeithiau ar wahanol fusnesau bach – ar un llaw mae gwariant ymwelwyr heb os yn fanteisiol, ond gall llai o bobl yn yr ardal ar gyfer llawer o fanwerthwyr a lletygarwch gael effaith ar nifer yr ymwelwyr y tu allan i'r tymor twristiaid, gan wneud agor gydol y flwyddyn yn fwy anodd. Ar ben hynny, ar adeg o brinder sgiliau, mae diffyg gweithlu o blith y preswylwyr lleol yn cael effaith ar eu capasiti, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.

Mae BBaChau wedi ymsefydlu yn eu hardaloedd – fel y nododd un o ymatebwyr y grŵp ffocws, mae plant a theulu yn cael pethau'n anodd yn aml o ran tai, felly nid mater 'allanol' haniaethol yw hyn. Ar sail fwy gweithrediadol, mae pwysigrwydd rheoleiddio clir a orfodir yn dda i westywyr proffesiynol, lleoedd Gwely a Brecwast, a busnesau gosod, gan y gallant fod dan anfantais gystadleuol pan fydd Airbnb'au lleol yn gweithredu heb yswiriant angenrheidiol, amddiffyniadau ac iechyd a diogelwch:

*"Mae arnom angen gwneud newidiadau hefyd i'r system ardrethi busnes sy'n effeithio'n annheg ar fusnesau bach ac mae angen inni ffurfio deddfwriaeth hefyd i ymladd yn erbyn y farchnad Airbnb anrheoledig sy'n effeithio'n wirioneddol ar lety â gwasnaeth… Ellwch chi ddim ond ei adael i'r farchnad. Mae angen i ddeddfwriaeth gael ei rhoi yn ei lle yn gyflym iawn."*

**Gwestywr, Gogledd Cymru**

*"Rwyf yn cytuno â chael trefn ar faes anrheoledig Airbnb. Mae yna gymaint o bobl allan yna y byddwn yn bryderus iawn a ydynt yn cydymffurfio ag iechyd a diogelwch, maen nhw ond yn rhoi'r ystafelloedd yma ar Airbnb, a 'dydyn nhw ddim bob amser yn meddwl yn ofalus beth y mae angen iddyn nhw ei wneud i gadw cwsmeriaid yn ddiogel. Felly, rwyf yn hollol o blaid rheoleiddio a gwneud yn siŵr fod gennym weithredwyr proffesiynol ond ei wneud yn gyraeddadwy i'r rhai proffesiynol mas yna."*

**Darparwr llety, De-Orllewin Cymru**

Mae nifer o wledydd wedi cyflwyno rheoliadau, gyda llawer wedi'u gwneud ar lefel leol gan ddibynnu ar y problemau neilltuol a godir. Er enghraifft, mae Valencia'n rheoleiddio yn erbyn gosod tymor byr uwchben y llawr cyntaf, gan fod hyn yn golygu bod y golygfeydd gwell (a'r rhai sy'n cael eu prisio allan) ar gyfer preswylwyr, ac mae unrhyw adeilad sydd ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gosod ag angen trwydded gwesty.[8] Mae Barcelona wedi cyflwyno mesurau rhannu'n gylchfâu, cosbi yn llym a dirwyo platfformau megis Airbnb a HomeAway am rentu heb drwydded. Ym Madrid rhaid i rywle sy'n cael ei osod fod â'i fynedfa drws unigol, i liniaru yn erbyn colli cydlyniant cymunedol mewn fflatiau, mae Madrid yn caniatáu i berchnogion rhandai benderfynu ar y cyd i wahardd llety gwyliau ac yn gofyn am drwydded ar gyfer eiddo sy'n cael ei osod am fwy na 90 diwrnod y flwyddyn (i'r gwrthwyneb i'r cynigion yng Nghymru). Mae rhanbarthau a dinasoedd yn y Taleithiau Unedig wedi gosod llawer o atalfeydd yn y maes hwn hefyd.[9]

Mae'r rhain yn ymyriadau sy'n gweithio orau os ydynt yn amlwg yn mynd i'r afael â'r broblem leol ac yn gwneud hynny mewn ffordd sydd wedi'i thargedu, gyda chyfres o wahanol fesurau ar gael i'w defnyddio'n lleol, yn hytrach nag un ateb sy'n addas i bopeth.

---

[8] El Pais, "Valencia joins the fight against holiday rentals" (May 9 2018), available https://english.elpais.com/elpais/2018/05/09/inenglish/1525851010_505130.html
[9] M Honey & K Frenkiel, Overtourism: Lessons for a Better Future (Island Press: 2021)

Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar lety gwyliau a chartrefi haf ac mae'n cynllunio trwyddedau rheoleiddiol ar gyfer gosod o'r newydd mewn ardaloedd gyda phroblemau tai (sy'n arferol mewn llawer ardal) a throthwy newydd yn ôl pa un y mae'n rhaid i eiddo gael ei osod am 182 noson (o 70 diwrnod) y flwyddyn i'w ddosbarthu fel busnes ac nid eiddo preswyl.

Mae hyn yn godiad uchel iawn yn y trothwy, a chodwyd pryder gan ein grwpiau ffocws, er bod y pryder fwy o ardaloedd gwledig nag ardaloedd trefol. Mae 182 diwrnod yn cyfateb i 26 wythnos wedi'u harchebu'n llawn, gydag un darparwr llety yn nodi ei bod 'bron yn amhosibl', yn arbennig i dai mawr wedi'u hanelu at deuluoedd sydd, ar wahân i wyliau ysgol, ond yn cael eu gosod ar benwythnosau. Fel y cyfryw mae'n mentro ymagwedd un ateb di-fin sy'n addas i bawb, heb ei addasu i amgylchiadau lleol neu fathau neilltuol o osod. Yn ogystal â maint eiddo, mae yna ddiffyg gweithgaredd a darpariaeth i dwristiaid mewn rhai ardaloedd ar hyn o bryd, ond fe all fod yn fuddiol iddo gael ei gymell, wrth inni ymorol am wasgaru cyrchfannau twristiaid oddi wrth botiau mêl. Mae ar y system angen hyblygrwydd i addasu i anghenion o'r fath hefyd.

**Argymhellion**

- Mae rheoleiddio cyson a theg yn bwysig i fusnes bach i ddarparu tegwch yn y farchnad, yn arbennig mewn perthynas â'r 'economi anffurfiol.' Er hynny, rhaid ei wneud ar sail glir, resymegol, a chymesur, er mwyn cadw ymddiriedaeth y sector a'r gymuned leol fel ei gilydd, ac iddo gael ei fonitro am ganlyniadau anfwriadol.
- Dylai strategaeth reoleiddio ffitio o fewn ffordd strategol ehangach 'meddwl yn fach yn gyntaf' o weithredu sydd o blaid busnes trwy Fil Datblygu Economaidd, fel yr argymhellwyd mewn adroddiadau eraill gan FSB Cymru.
- Ni ddylai rheoleiddio – neu ddiffyg gorfodi gan awdurdodau – arwain at effaith annheg ar fusnesau cyfreithlon.
- Rhaid i unrhyw drothwy newydd gael ei gysylltu'n rhesymegol â gweithgaredd tymhorol (e.e., nifer y diwrnodau y disgwylir bod yn weithredol), neu wedi'i gysylltu â faint o ddiwrnodau y byddem yn ei ddisgwyl mewn tymor twristiaeth cyffredin ac wedi'i fesur ar sail glir a rhesymegol.
- Mae'r farchnad ymwelwyr twristiaeth ôl-Covid bresennol yn ansicr ac ansefydlog iawn, ac felly dylai dadansoddiad o'r farchnad o'r fath gymryd hyn i ystyriaeth mewn unrhyw sail resymegol ar gyfer trothwyon newydd. Ffordd bosibl o ddelio â hyn yw codi'r trothwy'n gynyddrannol ochr yn ochr â phroses adolygu i glustnodi'r effeithiau ar y farchnad.
- Mae'n ymddangos fod y gyfundrefn drwyddedu arfaethedig newydd wedi'i hanelu at enwi busnesau, ac felly'n delio â'r ofn efadu treth a gwneud defnydd anghyfreithlon o'r system trethi busnes i osgoi'r dreth gyngor. Dylai unrhyw gyfundrefn drwyddedu gael ei hystyried o fewn sail resymegol ar gyfer y trothwyon newydd, fel dull arall o enwi busnesau cyfreithlon yn y maes hwn.
- Gellid defnyddio cyfundrefn drwyddedu hefyd i ddarparu deunyddiau ar gyfer ymgysylltu â'r ymwelwyr trwy'r busnesau eu hunain, ar sail cyd-greëdig (gweler y bennod nesaf)
- Gallai trothwyon gael eu halinio i ddarparu cysondeb, megis yr argaeledd 210 diwrnod a 105 arhosiad dros nos fel y'u gosodwyd gan CThEM.

## Cipio gwerth, twristiaeth a chymunedau

Mae cwestiwn sut ydym yn sicrhau ein bod yn cael gwerth i dwristiaeth yn lleol ac i Gymru yn ychydig llai hawdd i'w fesur na'r ffigyrau lefel macro a drafodwyd yn barod. Mae'n gofyn am ddealltwriaeth o ble mae'r cyhoedd yn ennill a harneisio gwerth twristiaeth i'w ddatblygu.

Ar hyn o bryd, mae'r drafodaeth hon yng Nghymru wedi bod yn ymwneud â threth twristiaid yn bennaf, fel yr agwedd fwyaf dadleuol ar y drafodaeth. Mae wedi gwasanaethu'n aml fel dirprwy dros drafodaethau polisi cymhleth ynghylch gwerth, wedi'u plethu ar draws llawer agenda.

Mae manylion unrhyw dreth yn aros i'w gweld ac am yn rhy hir, mae'r drafodaeth hon wedi digwydd yn niffyg manylion sydd wedi bod yn ddi-fudd i'r drafodaeth ar bolisi ac o bryder dealladwy i'r sector. Felly, bydd yr adran hon yn mynd i'r afael â thrafodaethau ynglŷn â gwerth a threthiant o ran egwyddorion ac oblygiadau ymarferol a gweithredu – gan ofyn y cwestiwn 'beth sydd yna i'w wneud a sut y gall wasanaethu datblygu economaidd i BBaChau orau os caiff ei deddfu o gwbl'?

**Argymhelliad:**

- Ar adeg o gostau cynyddol ac adferiad economaidd wedi pallu, mae trafodaethau ar fwy o dreth yn ddi-fudd, felly dylid peidio ystyried treth twristiaeth o leiaf hyd nes bydd adferiad yn yr economi.
- Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, a llywodraeth lleol leihau'r costau wrth wneud busnes yn yr hinsawdd bresennol, yn cynnwys mesurau megis gostwng y gyfradd TAW yn ôl i 12.5%, diddymu'r codiad yn y Cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol, a rhyddhad ardrethi busnes wedi'i dargedu.

Serch hynny, mae yna drafodaeth deg i'w chael ar wasgaru gwerth twristiaeth, ac er nad yw treth yn ateb ynddo'i hun, mae'n bwysig fod trafodaeth arni'n cael ei gosod ar y sylfaen iawn, ar ddatblygu economaidd a datblygu twristiaeth fel cyfanrwydd. Felly, mae'r drafodaeth hon yn anelu at osod y dreth yn yr amcanion ehangach:

- Ar gyfer beth mae hi?
- Os yn ei lle, beth all ei gyflawni?
- A oes dewisiadau eraill sy'n gallu gwneud pethau tebyg yn well?
- Beth yw'r goblygiadau ymarferol?
- Sut fyddai'n cysylltu â strategaeth twristiaeth ehangach yr ydym wedi'i thrafod yn barod?

## Beth ddywed ein haelodau

Mae ein haelodau wedi mynegi pryder gwirioneddol ynghylch y syniad o dreth twristiaid, yn arbennig yn yr hinsawdd anodd bresennol.

Nodwyd mewn trafodaeth fod angen rhoi cyfrif am y dirwedd dreth ehangach, gan nodi bod y lefel TAW bresennol o 20% ar gyfer twristiaeth a lletygarwch yn y DU yn llawer uwch nag yn Ewrop, gydag un cyfranogwr yn nodi 'nid yw pobl leol yn sylweddoli'r fath effaith enfawr ar drethiant y mae Twristiaeth yn ei gael yn barod.'

Roedd pryder hefyd fod tôn y drafodaeth wedi arwain at negeseua gwael i Gymru, gydag un yn nodi bod y syniad o 'groeso'n ôl – mae arnom eich gwir eisiau ac i'ch trethu' yn ddi-fudd. Pwynt arall a nodwyd oedd, ochr yn ochr â 'chyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol yn codi, ardrethi busnes yn dod yn ôl i mewn, prinder sgiliau'r sector a chostau byw yn mynd i fyny...Ac mae'r sôn am y dreth twristiaeth yn taro hyder busnes yn fawr iawn yn y cyd-destun ehangach hwnnw.'

Nodwyd hefyd y byddai ofn y baich treth yn cael ei liniaru petai hi'n glir ar gyfer beth y byddai'n cael ei defnyddio, gydag un yn dweud os oedd yn amlwg 'i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy a bod y dreth yn mynd tuag at fannau gwefru trydan neu rywbeth tebyg i hynny a'i bod yn ymroi i wneud hynny, yna efallai na fyddai o wahaniaeth gan bobl, ond *yn codi'r ysgwyddau*". Nodwyd petai treth yn arwain at doiledau'n cael eu glanhau, dim tyllau yn y ffordd, seilwaith i helpu, yna byddai llawer yn gallu 'cydsynio.'

Cafodd amheuon eu cyfleu hefyd y bydd treth yn cael ei defnyddio'n bennaf i godi refeniw, gyda'r teimlad y bydd yn 'beiriant cynhyrchu arian' i gynghorau sy'n brin o arian, gydag un cyfranogwr yn ofni y byddai'n cael ei weld fel 'budrelwa' ar y sector, a'i fod yn tanseilio cydymdrech, gyda theimlad y gallai arwain at berthynas 'ni a nhw' rhwng y sector a llywodraeth leol.

**Fe wnaeth un aelod grynhoi'r cwestiwn fel a ganlyn:**

> *"Beth ydi pwrpas dod â threth twristiaeth i mewn? Ai dim ond i ddod â refeniw ychwanegol y gellir ei ddefnyddio yn unrhyw le i mewn ydi hyn? Ai Llywodraeth Cymru fydd yn cael yr arian? Ai awdurdodau lleol fydd yn cael yr arian? A fydd wedi'i glustnodi ar gyfer seilwaith i helpu gyda pharcio a thoiledau? Ac nid dim ond yn cymryd lle'r pot o arian sy'n cael ei ddefnyddio'n barod. Mae angen iddi fod yn ychwanegol i'r hyn y mae pob cyngor lleol yn ei wario'n barod ar dwristiaeth."*

**Darparwr llety, Gogledd Cymru**

Bydd yr ansicrwydd presennol a'r diffyg eglurdeb ynghylch beth fydd y dreth yn rhoden fellt ar gyfer gwahanol faterion a phroblemau, yn gweithio yn erbyn y gwaith ymgysylltu a'r ffordd strategol o weithredu. Rhaid i unrhyw drafodaethau ar dreth twristiaeth gael eu gosod felly yng nghyd-destun strategaeth datblygu economaidd ac ymgysylltu â'r sector.

## Gwerth cymunedol, gwasanaethau twristiaeth a BBaChau – ble ydym yn awr

Mae busnesau bach yn y sector twristiaeth yn darparu manteision yn lleol yn barod, trwy gyflogaeth ac enillion treth, yn ogystal â chyfraniadau i'r economi gymdeithasol.

Mae llawer o'r busnesau y bu inni siarad â nhw yn chwarae rhan wrth ddarparu gwasanaethau yn eu hardaloedd. Er enghraifft, rydym yn gwybod am lawer o fusnesau amgylcheddol ymwybodol sy'n darparu cludiant i westeion neu bobl sy'n dod i'w hatyniadau.

Efallai bod llawer o fusnesau a fyddai'n cael eu heffeithio gan dreth yn cymryd rhan mewn AGBau hefyd – ble mae pleidlais dros gynnydd mewn ardrethi busnes o 2% sydd wedi'i glustnodi ar gyfer datblygu canol y dref ble mae'r busnesau wedi'u lleoli. Gallai mentrau fel y rhain, ble mae arian yn cael ei glustnodi'n glir a bod y manteision a grynhoir yn hawdd i'w hadnabod i'r rheini sy'n talu'r ffi er budd y naill a'r llall, fod yn fwy anodd i'w pasio os yw busnes yn teimlo y gofynnir iddo dalu mwy ddwywaith. Dylid nodi hefyd fod yna, mewn mannau eraill yn y DU, Fentrau 'AGB' sectorau, 'Ardaloedd Gwella Busnesau Twristiaid' sy'n gweithio ar sail debyg. Eto, mae hwn yn fodel a fyddai o bosibl yn caniatáu meithrin gwell rhwydweithiau, tryloywder, i fusnesau eu hunain nodi anghenion, ac i weld y manteision yn uniongyrchol.

Y perygl o ran gwneud treth twristiaid yn ddewisol i awdurdodau lleol yw y gall y cyswllt â gwario a manteision fod yn llai uniongyrchol, ac mae amheuaeth ymhlith ein grwpiau ffocws y byddai'n cael ei cholli yn nhwll du bylchau cyllido llywodraeth leol, gyda fawr ddim cyswllt â datblygu'r sector. Ar sail cyllidebau tyn, mae hyn yn bryder dealladwy, a byddai angen mynd i'r afael ag ef yn uniongyrchol.

**Argymhelliad:**
- Nid treth yw'r unig fodel ar gyfer cipio gwerth. Mae angen bod gwerthusiad o sut y mae gwerth yn cael ei greu yn lleol gan BBaChau yn barod, ac o unrhyw ganlyniadau gwrthnysig posibl ble mae creu gwerth cymdeithasol yn cael ei wthio o'i le gan dreth twristiaeth.

## Egwyddorion ar gyfer trethi newydd

Hyd yn oed mewn cyfnodau ffyniannus, mae BBaChau yn byw ar ffiniau elw tyn a bydd costau uwch yn gwneud busnesau – ac felly economïau lleol – yn fwy bregus. Mae'r FSB yn ystyried bod angen i unrhyw newidiadau i'r system dreth ystyried egwyddorion sylfaenol trethiant i sicrhau bod y system yn addas i'r diben:[10]

- **Tegwch:** dylai pob busnes dalu ei gyfran deg o drethi, a dylai'r ardrethi a delir fod yn debyg i'r rheini sy'n cynnal gweithgareddau cymharol. I'r un graddau, dylai busnesau fod yn derbyn unrhyw ryddhad y mae ganddynt hawl iddo.
- **Digonolrwydd:** dylai'r dreth a gesglir gan lywodraeth fod yn ddigon i gwrdd â threuliau'r llywodraeth ar wasanaethau cyhoeddus.
- **Symlrwydd:** dylai pob trethdalwr fod â dealltwriaeth glir o'r system dreth, y trethi y mae angen iddynt eu talu, pryd mae'u rhwymedigaethau yn ddyledus, a faint sy'n ddyledus.
- **Tryloywder:** dylai trethdalwyr fod â dealltwriaeth o sut y mae'u taliadau treth yn cael eu defnyddio.
- **Hwylustod gweinyddol:** dylai talu rhwymedigaethau treth fod yn broses syml nad yw'n feichus i naill ai'r trethdalwr neu i'r casglwr trethi.

Dylai'r system dreth roi cyfrif hefyd am niwtraliaeth ac effeithiau niweidiol posibl ar yr economi trwy atal gweithgaredd busnes. Mae yna achlysuron ble gall trethiant anniwtral fod yn briodol, er enghraifft, pan fo canlyniadau polisi yn dibynnu ar ddefnyddio trethiant fel erfyn, megis y posibilrwydd o drethi gwyrdd i leihau allyriadau carbon. Ble nad yw trethi'n niwtral, dylai hyn fod oherwydd dewis polisi ymwybodol ac agored i ddylanwadu ar ymddygiad, yn hytrach nag yn ganlyniad anfwriadol.

[10] D Park, 'A Duty to Reform: Making Tax Work for Small Businesses in a Digital World (FSB: 2021) https://www.fsb.org.uk/resource-report/a-duty-to-reform.html

## Treth twristiaeth – paham, a phaham yn awr?

Fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd, byddai'r Ardoll Dwristiaeth Leol yn cael ei ddefnyddio gydag arosiadau dros nos yng Nghymru. Byddai'r penderfyniad i godi ardoll yn cael ei adael i awdurdodau lleol unigol, a byddai'r arian a godir yn cael ei fuddsoddi yn ardal yr awdurdod lleol. 'Dyw'r ffi a godir ddim wedi'i benderfynu ar hyn o bryd.

Fel mae'n sefyll, trafodaeth a sail Llywodraeth Cymru dros y dreth yw i 'ymwelwyr dalu i mewn am wasanaethau' ac mae wedi'i hanelu at dwristiaid dros nos, ond nid yw hyn yn ddigon penodol eto. Nid yw derbyniadau'r dreth wedi'u neilltuo'n glir ar gyfer datblygu twristiaeth (neu i'r sector weld y cyswllt hwnnw), a 'does dim polisi cydlynol ar hyn o bryd o fewn strategaeth ehangach.

O ystyried bod y manylion yn dal yn ansicr, mae'r adroddiad hwn yn trafod yr egwyddorion cyffredinol y dylem fod yn eu hystyried mewn unrhyw bolisi treth twristiaeth. Ni ddylai treth eistedd ar wahân oddi wrth unrhyw reidrwydd economaidd ehangach. Dylem fod yn ochelgar o'i wneud 'oherwydd ein bod yn gallu.'

Yr un modd, mae dod â'r dreth i mewn fel un wedd ar strategaeth dwristiaeth ehangach yn mentro colli'r pwynt a defnyddio treth at ddiben. Er enghraifft, 'dyw ymateb Barcelona i'w materion penodol yn gyfystyr â threth yn unig, ond mae'n rhan o 'strategaeth amlochrog' a greodd 261 o fesurau sy'n 'cydnabod mai'r her yw nid dim ond rheoli twristiaeth ar wahân, ond rheoli dinas ble mae twristiaeth yn tra-arglwyddiaethu' ac mae'i weithredu'n ymorol hefyd am 'chwalu rhwystrau sydd yn draddodiadol wedi gwahanu twristiaeth oddi wrth weddill y ddinas'. Mae'n anelu at fod yn drawsadrannol i integreiddio twristiaeth â chynllunio a'r economi ehangach, a chreu 'Cyngor Twristiaeth a Chyngor Dinas fel corff dinesig agored, amrywiol, a chyfranogol' i'r diben hwnnw.

Roedd y strategaeth ehangach hon a'r mesurau hyn wedi'u hanelu at 3 egwyddor graidd:
(1) mwyhau'r enillion cymdeithasol o weithgareddau twristiaeth i gymdogaethau lleol,
(2) gwella rheolaeth integredig twristiaeth, a (3) llunio gwahanol strategaethau ar draws y tir gan ddefnyddio proses o'r gwaelod i fyny.

Fel y cyfryw, mae'r dreth yn ymorol hefyd am hwyluso datblygu economaidd ac nid yn edrych ar dreth fel elfen 'ddigolledu' neu fath o 'dreth bechod.' Mae'r prosiectau'n cynnwys y canlynol:

**1. Impulsem el que fas! ("Hyrwyddwn ni'r hyn a wnewch chi!")**, wedi'i gynllunio i ddarparu cymorthdaliadau ariannol i brosiectau a busnesau twristiaeth economaidd-gymdeithasol arloesol, megis prosiect i gysylltu llety twristiaeth â ffynonellau bwyd cynaliadwy, cynhyrchion glanhau, a chyflenwadau swyddfa.

**2. Hyfforddiant i Gwmnïau Twristiaeth** i annog cwmnïau twristiaeth i fabwysiadu arferion amgylcheddol a chymdeithasol gynaliadwy, gyda phwyslais ar amodau gwaith a help personoledig i gwmnïau.[12]

Nid yw'n ddigon gweld a datblygu twristiaeth trwy lens treth yn unig, rhaid iddi dycio i ddatblygu'r sector a llywodraethu lleol hefyd.

## Treth Twristiaeth fel 'System Ardoll Gyfranogol': model i'w drafod

Er bod ein haelodau wedi mynegi pryder gwirioneddol ynghylch y syniad o dreth twristiaid, yn arbennig yn yr hinsawdd anodd bresennol, fe wnaeth ein grwpiau ffocws ddarparu trafodaethau adeiladol ar yr hyn y dylai ei gyflawni, petai yn ei lle. Byddai cyswllt â chanlyniadau a gwerth i'r diwydiant trwy neilltuo i'w croesawu.

Mae yna wersi i lywodraeth eu dysgu yn sut y mae'r dreth yn cael ei chyfathrebu, a'i chyswllt â gwell ymgysylltu, y gellir ei ddysgu o'r arfer ar hyn o bryd gan BBaChau eu hunain:

[11] M Honey & K Frenkiel, Overtourism: Lessons for a Better Future (Island Press: 2021)
[12] Ibid

*"Rydym yn codi tâl aelodaeth ar ein holl wersyllwyr. Felly, yn ogystal â'u lle, rhaid i bob archebiad dalu £12 i ymuno â'r clwb am flwyddyn.*

*Hanfod y peth ydi negeseua. Yn y 5-6 mlynedd ers inni fod yn mynd, rydym ond wedi cael un neu ddau o bobl sydd heb gymryd y gost honno'n dda. Oherwydd y tâl mae pobl wedi cefnogi'r hyn y mae'r Clwb Gwersylla Gwyrddach a wnelo ag ef, ac maen nhw wedi cefnogi'r syniad o ailfuddsoddi arian mewn prosiectau amgylcheddol hefyd. Rydym yn ei redeg ar sail nid-er-elw.*

*Byddai'n dibynnu ar ble mae'r arian hwnnw'n cael ei roi yn ôl i mewn i'r diwydiant, sut mae hynny'n cael ei egluro i'r bobl sy'n talu'r dreth honno, gan fy mod yn meddwl fel arall y bydd yn bwrw pobl oddi ar eu hechel ac mae hi am fod yn anodd ymgysylltu â thwristiaid a chyfiawnhau pam fod eu costau'n cynyddu.*
**Safle Gwersylla, De-Orllewin Cymru**

Gyda'r gwersi hyn mewn cof, rydym yn ymorol am fodel posibl i gynorthwyo'r drafodaeth. Yn hytrach na model terfynol wedi'i baratoi'n llawn, mae hwn yn ymorol am ddarparu enghraifft o sut i gysylltu trethiant â strategaeth ehangach, negeseua a chefnogi gan ymwelwyr. Mae'n trafod ei weithrediad ac ymgysylltu â BBaChau hefyd, a thryloywder ynglŷn ag i ble mae'r arian yn mynd ac i ba ddibenion.

## System dreth gyfranogol

Mae un model y gellid ei ddilyn yn debyg yn fras i'r ardoll bagiau plastig wreiddiol yng Nghymru, ble mae perchnogion busnes yn penderfynu i ba elusen y byddai'r ardoll yn mynd.

Mae i hyn y fantais o roi grym i fusnesau dros ble dylai'r arian a godwyd fynd. Yr anfantais yng nghyd-destun ardoll twristiaid yw y byddai'r neilltuo i ddatblygu twristiaeth leol yn cael ei golli pe gallai pob busnes ddewis unrhyw elusen o'u dewis.

Amrywiad ar hyn felly yw y gallai busnesau gael eu cyflenwi â rhestr o brosiectau lleol sydd â chyswllt â datblygu twristiaeth, ac y gallent enwebu i ba brosiect y maen nhw'n dymuno i'r arian fynd. Byddai hyn yn caniatáu rheolaeth iddynt dros ble mae'u harian yn mynd o ran ei amcanion a'i weledigaeth, ei leoliad daearyddol (pa un ai yn y cyffiniau agosaf). Petaent yn dymuno gallent fod â 'dim dewis' ar y brig a byddai'r cyngor yn dosrannu'r arian.

I ddarparu ffrâm o fewn gweledigaeth a strategaeth ehangach, gallai'r cyngor enwebu nifer penodedig o brosiectau rhestredig. Byddai hyn hefyd yn annog lefel o ymgysylltu â'r gyllideb ar gyfer twristiaeth ac yn caniatáu i'r cyngor rannu'i weledigaeth yn uniongyrchol â BBaChau, yn ogystal â chaniatáu i BBaChau eu hunain gael dweud eu barn. Mae hyn yn darparu gwybodaeth hefyd fel bod BBaChau yn gallu ymgysylltu a phenderfynu ble dylai 'eu' harian a godwyd fynd.

Byddai hyn yn mynd i'r afael â rhai o brif ofnau cyswllt uniongyrchol yr ardoll gyda phrosiect twristiaeth, yn darparu effeithiolrwydd i'r perchennog busnes, yn darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth yn well ac felly rannu gweledigaeth ar gyfer twristiaeth a pherchnogaeth arni trwy weinyddu'r dreth, ac felly ddod â model ymgysylltu a meithrin gweledigaeth a strategaeth i mewn i frics unrhyw dreth twristiaeth arfaethedig. Byddai'r prif gwestiwn yn ymwneud â'r gost weinyddu ac amser, ac mae hwn yn faes y byddai angen ei drafod.

**Argymhellion:**

- Mae angen i dreth twristiaeth roi cyfrif am y marchnadoedd ymwelwyr sy'n newid, ac mae angen i asesiad o effaith unrhyw dreth fod yn gliriach nag ar hyn o bryd.
- Rhaid i'r sail resymegol ar gyfer y dreth a'r cyswllt â gwariant y llywodraeth fod yn glir – nid yw 'i ymwelwyr dalu i mewn am wasanaethau cyhoeddus' yn rhoi manylion ac nid yw'n arwain at neilltuo clir
- Megis gydag unrhyw dreth newydd, dylai treth twristiaeth ymorol am gael ei datblygu ac i allu bod yn atebol i egwyddorion trethu da
- Dylai unrhyw dreth alinio gyda strategaeth datblygu twristiaeth ehangach, a dylai model sy'n annog ymgysylltu gan BBaChau a pherchenogaeth ar y strategaeth gael ei drafod
- Dylai asesiad o effaith treth newydd fel anghymhelliad i BBaChau gweithgaredd gwerth cymdeithasol eraill gael ei wneud cyn y caiff unrhyw dreth ei gweithredu.

Mae angen i unrhyw fodel arfaethedig ffitio o fewn fframwaith ehangach datblygu economaidd a datblygu twristiaeth. Byddai ansicrwydd ychwanegol a diffyg ymgysylltu â'r sector a ymddiriedir gyda'i weithredu yn niweidiol i ymddiriedaeth a gweithio mewn partneriaeth ar draws llywodraeth a busnes. Fel y cyfryw byddem yn annog Llywodraeth Cymru i fod yn glir yn ei hamcanion ac yn annog bod y llinellau amser yn glir ar ba bryd y gall unrhyw faich ychwanegol ddisgyn ar BBaChau yn y sector, a beth ddylai'r disgwyliadau fod.

# 3. BRAND CYMRU A'R BRAND PRYDEINIG

Mae gan Gymru safle o ran cyfle brand, gan fod o fewn yn ogystal â bod yn wahaniaethol i frand Prydeinig. Er bod rhai'n gweld hyn yn ddryslyd, mae'n cynnig mwy o gyfleoedd a dylid ei ystyried yn fantais gymharol.

Mae busnesau'n deall yr hyblygrwydd hwn yn dda at ei gilydd, a bydd gwahanol fusnesau'n defnyddio brandio a marchnata gwahanol, gan ddefnyddio cymysgedd o'r ddau neu fel sy'n ateb eu diben. Yn 2020 fe wnaethom ofyn i'r aelodau ba mor bwysig yw'r brand Cymreig a'r brand Prydeinig i'w busnes. Mewn ymateb, nododd 42% o BBaChau fod y brand Cymreig yn bwysig i'w cynhyrchion neu i'w gwasanaethau, gyda 39% yn dweud yr un fath am y brand Prydeinig.[13]

Ochr yn ochr â'r hyblygrwydd hwn a marchnadoedd segmentedig gwahanol y gellir eu defnyddio fel y bo angen, mae angen i frandio yn ei weddau Prydeinig, Cymreig a Chymreig/Brydeinig fod yn addasadwy i gyd-fynd ag anghenion yr amrywiaeth o randdeiliaid. O reolwyr cyrchfannau i ddarparwyr llety o bob lliw a llun, sicrhau bod y brand yn ddigon hyblyg i ffitio gyda hunaniaeth ddiwylliannol leol wahanol mewn ffordd gynhwysol, ac yn gallu datblygu ar gyfer atyniadau newydd. Sut mae BBaChau ar draws Cymru mewn sectorau annhebyg yn chwarae i wahanol gynulleidfaoedd o'u cefndiroedd eu hunain yn gallu canfod brand Cymru, cymryd rhan ynddo a'i hyrwyddo?

**Fel y dywedodd Melin Drafod Twristiaeth Ddigidol (DTTT) mewn cyfweliad â Croeso Cymru ar eu dull gweithredu:**

*"Wrth farchnata cyrchfannau, 'dyw brandio ddim a wnelo â logos. Mae'n ymagwedd holistaidd, 360 gradd tuag at grefftio, datblygu, a meithrin hunaniaeth ddilys i'r gyrchfan."*

Cwestiwn pwy a sut ac i anghenion pwy y mae'r hunaniaeth honno'n cael ei siapio'n ddilys yw'r cwestiwn, a sut y gall BBaChau ei harneisio a'i defnyddio ar gyfer eu marchnadoedd eu hunain, ochr yn ochr â meithrin capasiti i wneud hynny.

### Brand Cymru – Beth ddywed ein haelodau

Roedd consensws cyffredinol yn ein grwpiau ffocws fod y brand Cymreig, mewn termau rhyngwladol, yn tueddu i gael ei gogynnwys yn y brand Prydeinig/Saesnig, yn rhannol oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r gwahaniaethau.

*"Dyna fy mhwynt gyda brand Cymru. Fe all fod yn dod drosodd fel gweld ble cawsom y blas Cymreig yma ar bopeth, ond mae pobl yn dal i feddwl ein bod yn Lloegr. Ac mewn gwirionedd 'dyw ddim yn arwain at unrhyw werthiannau inni."*
**Safle Atyniad Naturiol, Canolbarth Cymru**

Peth o'r drafodaeth oedd bod brand Cymru'n cael ei frandio'n effeithiol i Loegr a gweddill y DU, ond nid felly'n rhyngwladol.

*"Rwyf yn meddwl nad ydi Llywodraeth Cymru'n gwneud gwaith da o farchnata Cymru yn rhyngwladol. Ond a dweud y gwir rwyf yn teimlo eu bod yn gwneud gwaith eithaf da o'i marchnata i'r Saeson...Mae gennym i gyd ryw 90 y cant a mwy o'n cwsmeriaid yn dod o Loegr."*

[13] Lap Gareth, 'Building Business: Building Communities through Business Support' (FSB: 2022), available https://www.fsb.org.uk/resource-report/building-business.html

*“Os edrychwch chi ar farchnata mwyaf diweddar Croeso Cymru, rwyf yn teimlo eu bod mewn gwirionedd wedi dirnad beth sy’n dda ynghylch Cymru. Wyddoch chi, yr iaith, y diwylliant, y bobl, yr awyr agored, y gwylltineb.”*

**Safle Gweithgaredd ac Atyniadau, De Cymru**

Roedd rhywfaint o anghytundeb ynghylch yr ail bwynt yma, gydag ehangder yr hyn oedd y brand yn ei hyrwyddo yn cael ei weld yn rhy gul.

*“Mae pobl yn mynd o gwmpas y byd i fynd i edrych ar y dolffiniaid a’r morfilod. ’Dyw hi ddim yn ymddangos bod Croeso Cymru yn alluog i hyrwyddo’r ffaith fod gennym boblogaeth lled-breswyl fwyaf Ewrop o Ddolffiniaid Trwynbwl – Y rhai del y mae ar bawb eisiau eu gweld. Ac mae yna ymgyrch enfawr yn erbyn gweld dolffiniaid mewn caethiwed yn awr.”*

**Safle Gweithgaredd ac Atyniadau, Gorllewin Cymru**

Mae hyn yn codi’r cwestiwn sut y gall BBaChau eu hunain ddod â chynnwys i mewn i ddarparu ar gyfer eu hanghenion a’u harbenigaethau.

Roedd rhai’n gweld y marchnata’n rhy gul ac roedd hyn yn creu problemau ynglŷn â photiau mêl yn mynd yn orlawn tra bod mannau eraill gerllaw yn cael eu hanwybyddu, gan gysylltu’r marchnata â rheoli cyrchfannau a gwasgaru ymwelwyr â’i gilydd yn fwy cynaliadwy:

*“Mae angen i (Croeso Cymru) fod yn fwy teg ynghylch eu marchnata. Mae angen iddynt ddarganfod lleoedd didramwy, hyrwyddo lleoedd sydd ag angen eu hyrwyddo. Felly, er enghraifft, y llynedd, roedd gan Croeso Cymru yr hysbysebu ynglŷn â Llangollen. Mae dan ei sang drwy’r adeg beth bynnag...Felly mae o’r math yna o agwedd, wyddoch chi, peidiwch â dim ond marchnata’r pwyntiau gwerthu mawr – dywedwch wrthym am y lleoedd eraill sydd lawn cystal atyniad.”*

**Gwesty, Gogledd-Ddwyrain Cymru**

*“Cyn belled ag y mae marchnata Cymru yn mynd, yr hyn rydym wedi’i ddweud bob amser yw bod angen inni farchnata ar gyfer y cyfnodau llai prysur. Mae angen inni ddangos traethau gwag a mynyddoedd eirllyd ar y ffilm yma gan fod llawer o bobl yn wir hoffi dod ar yr adeg honno o’r flwyddyn, wyddoch chi, a byddai’n llawer gwell ganddynt wneud hynny na dod pan fydd hi’n llawn dop o draffig, ac mae’n gweddu i’r holl bobl leol yn y busnesau twristiaeth yn well.”*

**Safle Atyniad Natur, Gogledd-Orllewin Cymru**

Mae marchnata o’r fath wedi’i drafod yn rhywle arall, o ran marchnata ar gyfer cynigion gydol y flwyddyn, ond hefyd ar gyfer cysylltu gwasgaru ymwelwyr i ardaloedd newydd. Un enghraifft yw ymgyrch #Skyetime Yr Ynys Hir yn Shetland, yn annog ymwelwyr i ‘arafu, gweld llai a phrofi mwy,’ sy’n ymorol am fynd i’r afael â phroblemau tagfeydd a gorlenwi yn ei phum olygfa fawr.[14] Ei harwyddair yw ‘Aros yn Hirach, Gweld Llai. Profi Mwy.’

Yr un modd, mae Gwlad yr Iâ wedi marchnata ‘Llwybr Arfordir yr Arctig’ yn 2019, gan ymorol am dynnu ymwelwyr oddi wrth ei golygfeydd ‘Cylch Euraidd’. Ni wnaeth greu unrhyw lwybrau newydd; dim ond enwi’r ffyrdd a’r llwybrau hyn gyda’i gilydd fel ‘ffordd arfordir’ oedd yn newydd. Mae hyn yn awgrymu y gall Cymru farchnata llwybrau sydd yn ‘ddidramwy’ o’r newydd fel petai.

[14] The Scotsman, ‘Isle of Skye: Tourists urged to ‘slow down, see less and experience more’ of the island’ (31 May 2019) https://www.scotsman.com/heritage-and-retro/heritage/isle-skye-tourists-urged-slow-down-see-less-and-experience-more-island-69934

**Argymhellion:**

- Dylai brandio ymorol am farchnata gwahanol rannau o Gymru, gan alinio siwrnai'r ymwelydd o'r cyfnod marchnata a chynllunio'r siwrnai drwodd i gyrraedd a phen y siwrnai.
- Dylai marchnata ymorol am wasgaru ymwelwyr trwy ddefnyddio ffyrdd o ddenu ymwelwyr yn y tymor tawel, ac fel profiad cadarnhaol
- Dylai marchnata ymorol am ddarparu marchnata teg, a chanolbwyntio ar wasgaru ymwelwyr i ardaloedd newydd, fel yn yr Ynys Hir
- Dylai ardaloedd 'didramwy' gael eu brandio a'u hyrwyddo, megis gyda llwybrau amgen Gwlad yr Iâ
- Dylid defnyddio diwrnodau unigryw, gwahaniaethol y tu allan i'r tymor twristiaid prysur megis 'dydd Santes Dwynwen' gyda golwg ar breimio'r diwydiant a masnach busnes yn y cyfnodau hynny.
- Dylai seilwaith trafnidiaeth gadw gwasgaru i ardaloedd twristiaid newydd mewn cof fel nod. Er enghraifft, dylai twristiaeth treftadaeth Ddiwydiannol gael ei halinio â'r Metro newydd, ochr yn ochr â dulliau o dynnu ymwelwyr 'digwyddiadau mawr' o Gaerdydd i gyrchfannau llinellau'r Cymoedd.

Nododd nifer o gyfranogwyr fod eu marchnata busnes ar gyfer eu cwmnïau eu hunain yn cael ei dargedu'n fawr, gyda llawer yn talu am dargedu cyfryngau cymdeithasol, ar ôl cywreinio hyn yn ystod y pandemig. Fe wnaethant rannu eu bod yn adnabod eu marchnadoedd yn dda, a sut y bu iddynt addasu i gynulleidfaoedd newydd wrth i'w busnes newid. Dylid ystyried bod i hyn botensial digyffwrdd petaem i gysylltu'r dotiau o Lywodraethau i anghenion a marchnata eu hunain BBaChau.

O ran marchnata nodwyd hefyd y bu'n rhaid i BBaChau addasu a meithrin galluoedd ar-lein a thargedu eu marchnadoedd penodol yn ystod Covid, er mwyn i'w busnes barhau o gwbl yn ystod y pandemig. O drafodaeth fanwl ar rinweddau ac ar arbrofion a wnaed ar draws gwahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol oherwydd Covid-19, roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws wedi meithrin eu galluoedd a'u capasiti cyfryngau cymdeithasol o fewn eu busnes i amrywiol raddau, gan ddangos mwy o gapasiti o fewn y sector yn y meysydd hyn i'w harneisio na chyn y pandemig.

Mae prinder sgiliau'n broblem allweddol i'r diwydiant, a gellid mynd i'r afael â hyn o fewn y strategaeth gyfan. Fel hyn, mae'r strategaeth ar gyfer tyfu'r diwydiant yn eistedd ochr yn ochr â datblygu'r sgiliau yn y sector, wedi'i gerio tuag at y sgiliau a fyddai'n datblygu'r busnesau ymhellach ar gyfer y dyfodol (megis sgiliau gwyrdd, marchnata a digidol):

- Meithrin sgiliau tuag at ddatblygu diwydiant twristiaid gydol y flwyddyn.
- Mae meithrin sgiliau'n eistedd ar draws y strategaeth ehangach a fyddai'n darparu ysgogiad i feithrin sgiliau i ddarparu cynnwys o'r gwaelod i fyny gan BBaChau eu hunain i feithrin capasiti a galluoedd.
- Dylai Prentisiaethau Cymreig ymorol am greu gyrfaoedd blaengar mewn twristiaeth gydag achrediad am sgiliau allweddol.
- Dylai datblygu tuag at gynnig ecodwristiaeth alinio â meithrin capasiti mewn BBaChau gyda sgiliau gwyrdd a datgarboneiddio ar draws pob sector.
- Dylai'r Warant i Bobl Ifanc ymorol am adeiladu ar gyfleoedd o'r fath.
- Dylai sgiliau ffitio o fewn achrediad a chanolbwyntio ar greu llwybrau cynnydd a gyrfaoedd o fewn y sector. Mae hyn yn ffitio ochr yn ochr â chynnig twristiaid gydol y flwyddyn a chyflogaeth fwy sicr.

O ran defnydd y brand, roedd rhai wedi cael yr ymgyrch Croeso Cymru thematig yn ddefnyddiol, er bod rhai'n cydnabod nad oeddynt wedi manteisio arnynt fel y gallent fod wedi'i wneud.

*“Mae’r cysyniadau gan dîm marchnata Croeso Cymru ynglŷn â’r flwyddyn pethau math ‘X’ yn eithriadol o ddefnyddiol hefyd a buont yn llwyddiannus iawn ers iddynt eu cychwyn efallai pump neu chwe blynedd yn ôl fel gobaith i hongian pethau ar fusnesau llai ...mae ag angen llawer o flaengynllunio. Felly, ’dyw’n dda i ddim dweud wrthym yn Rhagfyr 2022 beth fydd y flwyddyn 2023. Mae arnom angen gwybod yn Ionawr 2022. I gynllunio pethau o gwmpas y themâu hynny, dyna’r broblem gyda llawer o fentrau sy’n funud olaf un ac maen nhw’n fath o redeg dros yr amseriad fel nad ydym yn cael gwybod nes bod hi ychydig yn rhy hwyr i fachu arnyn nhw.”*

**Gwesty, Gogledd-Ddwyrain Cymru**

Pwysleisiwyd hefyd fod diwrnodau thematig – yn arbennig y tu allan i’r tymor twristiaid prysur – yn ddefnyddiol, gyda rhai’n gweld diwrnod Santes Dwynwen yn cael ei ddathlu a’i farchnata’n fwy effeithiol ychydig flynyddoedd yn ôl yn effeithiol iawn wrth breimio busnesau ym mis Ionawr ac wrth ddarparu busnes.

Roedd yr Iaith Gymraeg yn cael ei gweld yn fendith gan gyfranogwyr, gyda’r lleiafrif nad ydynt yn darparu arwyddion dwyieithog yn weithredol yn cael eu hannog gan eraill i wneud hynny o safbwynt marchnata, gan eu bod wedi’i gael yn effeithiol. Yn ddiddorol, fe’i gwelid fel ased marchnata i ymwelwyr nad oeddynt yn siarad Cymraeg – yn arbennig o’r tu allan i Gymru – yn fwy na siaradwyr Cymraeg eu hunain

*“Mae ymwelwyr yn wirioneddol hoffi’r iaith Gymraeg i fyny yma. Maen nhw’n dotio ar y ffaith bod ganddynt ‘araf’ ar y ffordd a’r math yma o beth ac mae’n gadarnhaol iawn. ’Dwyf i ddim o Gymru’n wreiddiol. Roeddwn yn byw yng Nghymru lawer fel plentyn bob yn ail â pheidio, ond ’dwi ddim yn Gymro yn wreiddiol, wyddoch chi, ond rwyf wedi bod yma 15 mlynedd. Mae fy mhlant yn gwbl ddwyieithog, wyddoch chi, ac mae hynny’n rhan wirioneddol bwysig o’r hyn ydym yn ei wneud ar ein cynhyrchion. Ac mae wedi’i dargedu’n fawr iawn, os rhywbeth yn fwy, at yr ymwelydd. Mae a wnelo â’r bobl nad ydyn nhw’n Gymry a’r ffaith eu bod yn cael y profiad hwn mewn gwirionedd, fel heb swnio’n rhyfedd, eu bod yn sylweddoli eu bod nhw yng Nghymru gan ei bod yn hawdd iawn peidio fel arall.”*

**Safle Atyniad Natur, Gogledd-Orllewin Cymru**

*“Rydym yn cael ein hadnabod fel un o’r tafarndai mwyaf Cymreig yn y byd ac rydym yn bendant yn defnyddio’r brandio hwnnw i’n gwerthu dramor ac yn Lloegr a’r Alban a ble bynnag arall y gallwn gael cwsmeriaid. Waeth gen i o ble maen nhw’n dod cyn belled â’u bod yn clywed amdanom.”*

**Perchennog tafarn, Gogledd-Orllewin Cymru**

Mae ymgysylltu â busnesau wedi amlygu bod yr iaith Gymraeg yn brofiad cadarnhaol i ymwelwyr, ond yn rhywbeth nad oeddynt yn ymwybodol ohono yn aml cyn ymweld.

Fel y cyfryw mae’r cyswllt â chyflwyno’r iaith a’r diwylliant Cymreig yn rhyngwladol yn ffitio gyda gwahaniaethiad oddi wrth rywle arall ac yn fathodyn dilysrwydd diwylliannol o fewn y brand. Mae hyn yn ffitio gyda’r strategaeth cysylltiadau rhyngwladol ehangach a chodi ymwybyddiaeth a dylid ei gysylltu gyda gweithgaredd allforio a masnach ehangach a hyrwyddo mewn unrhyw gytundebau masnach newydd yn dilyn Brexit. Dylai digwyddiadau fel Cwpan y Byd 2022 ddarparu platfform ar gyfer marchnata a negeseua canoledig gan Croeso Cymru a Visit Britain, wedi’i alinio ag adduned.

- Dylai'r iaith Gymraeg gael ei gweld fel mantais gymharol i frandio ac adrodd storïau Cymru
- Dylid ei harneisio ar gyfer deunyddiau hyrwyddo, a dylid ei defnyddio fel bathodyn gwahaniaethu a dilysrwydd yn rhyngwladol o fewn brand Cymreig ac o fewn brand Prydeinig
- Dylai Croeso Cymru a Visit Britain weithio â'i gilydd gyda'r FAW i hyrwyddo Cymru fel y wlad leiaf i gymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd 2022 a datblygu'r cyfleoedd sy'n dod o Gwpan y Byd ynghyd â phartneriaid mewn busnes.
- Dylai Croeso Cymru a Visit Britain ymorol am Gytundebau Masnach Rydd newydd ac unrhyw brosesau masnach a buddsoddi newydd gan y DU i hyrwyddo Cymru fel marchnad segmentedig.

Perchnogion busnes nad oeddynt yn siarad Cymraeg oedd ein grŵp ffocws i raddau helaeth, ond iddynt hwy roedd yr iaith Gymraeg yn gyfle i frandio, ac yn rhywbeth a oedd yn cael ei werthfawrogi'n arbennig gan ymwelwyr o'r tu allan i Gymru. Fel hyn, teimlid bod defnydd arwyddion yn y Gymraeg yn cael ei groesawu'n arbennig gan rai nad oeddynt yn siarad Cymraeg a'u bod yn rhan o frandio Cymru ganddynt fel profiad unigryw. Roedd busnesau yn ein grŵp ffocws yn annog eraill nad oeddynt wedi rhoi llawer o feddwl i hyn i wneud hynny ac i edrych ar ei fanteision ehangach fel marchnata lle. Roedd y cyswllt â marchnata ehangach ar gynhyrchion lleol yn cael ei werthfawrogi hefyd.

O ran brandio Cymreig yn y dyfodol a beth allai fod yn bwynt gwerthu, fe wnaethom ofyn a oedd brand 'Ecodwristiaeth' yn debygol o werthu. Cytunwyd bod twristiaeth gynaliadwy yn hanfodol ar gyfer y dyfodol ac y byddai'n bwysig i ddefnyddwyr, yn arbennig pobl iau. Nodwyd bod gwledydd megis Costa Rica (gyda 98% o ynni o ffynonellau adnewyddadwy) ymhell ar y blaen ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd faint oedd unrhyw gynnig ecodwristiaeth yn ddibynnol ar newidiadau sylweddol ehangach mewn trafnidiaeth gyhoeddus, ynni adnewyddadwy, a seilwaith:

*"Mae Costa Rica yn wlad yr ydych yn meddwl amdani fel cyrchfan ecodwristiaeth. Ond ni ellwch ddweud eich bod os nad ydych. Felly mae angen i lawer o waith gael ei wneud cyn wyf yn meddwl y gall Cymru farchnata ei hun fel cyrchfan ecogyfeillgar."*

**Atyniad Gweithgaredd De Cymru**

*"Rydym yn ymhell o fod yn eco-gyrchfan yng Nghymru a'r seilwaith ydyw i gynnal hynny mewn gwirionedd. Er bod Sir Benfro'n arwain yn ôl pob golwg o ran ailgylchu fel un elfen, mae'r ddarpariaeth go iawn i fusnesau lletygarwch gefnogi hynny yn bur wael.*

*Felly, mae'n anodd iawn inni wedyn atgyfnerthu ymagweddau fel gwastraff ac ailgylchu. Rydym yn awyddus iawn i hyrwyddo twristiaeth fwy cynaliadwy trwy wyliau cerdded â pheidio â defnyddio car- ond 'ellwch ddim ei wneud gyda'r llwybrau bysiau sydd gennym ni.*

*Byddai'n wych gweld brand Cymru'n dod yn debyg i gynaliadwyedd mewn ecodwristiaeth, ond nid dyna'r brand Cymru allan yna gan ein bod dipyn o fod yn unman yn agos at eco-gyrchfan."*

**Gwersyllfa, De-Ddwyrain Cymru**

Mae angen i frandio alinio â datblygu polisi ehangach pendant ar gynaliadwyedd ac alinio â'r strategaeth ddiwylliannol ehangach megis ar yr iaith Gymraeg.

**Argymhelliad:**

- Dylai'r iaith Gymraeg gael ei defnyddio'n well fel 'bachyn,' a'i thargedu'n arbennig ble gall hyn godi ymwybyddiaeth a diddordeb yn rhyngwladol, megis mewn cytundebau masnach yn y dyfodol.
- Mae angen i seilwaith trafnidiaeth gael ei alinio â pholisi twristiaid, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, gyda golwg ar ddatblygu'r brand cynaliadwy / eco-dwristiaeth.

Yn olaf, nododd llawer sut mai adrodd storïau yw'r agwedd bwysicaf, ac roedd rhoi lle i bobl rannu storïau yn erfyn marchnata gwych, gan nodi bod "pobl yn hoff o storïau ac maen nhw'n hoff o hwyl." Daw hyn â'r cwestiwn o sut y gall BBaChau ddatblygu, gael at, a hyrwyddo'u storïau.

## Y Brand Croeso Cymru – Pwy sy'n Adrodd Ein Storïau?

**Mae Croeso Cymru wedi ymgymryd ag ailfrandio sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf gyda'r amcanion canlynol**

1) Dyrchafu statws Cymru trwy ddarparu cyfathrebiadau a phrosiectau brand arbennig i Gymru
2) Synnu ac ysbrydoli ein cynulleidfaoedd, gan greu proffil atgyfnerthedig i Gymru
3) Atgyfnerthu canfyddiadau cadarnhaol o'n gwlad
4) Gwneud pethau da, a chreu etifeddiaeth barhaus, ystyrlon a chynaliadwy
5) Bod yn Gymru yn ddigamsyniol, gan ddod ag ymdeimlad cryf o le a dilysrwydd i'r ymagwedd er mwyn sefyll allan

**Fel mae Croeso Cymru wedi'i ddweud:**

*"Fe wnaeth y brand ddarparu'r platfform o ba un y gwnaethom greu ein strategaeth cynnwys. Roedd arnom eisiau creu ecosystem ddigidol o storïau mwyaf dengar Cymru. Storïau sy'n creu syndod, darganfyddiad, a dirnadaeth ynghylch ein gwlad gyfoes. Storïau lleol gydag effaith fyd-eang wedi'u hadrodd gyda'n llais ni o safbwynt gwrthrychol, profiadol, dynol. Storïau sy'n galluogi cynulleidfa fyd-eang i ddewis Cymru yn eu sector dewisol."* [15]

Mae'r rhain yn ddyheadau canmoladwy a phetaent yn llwyddiannus byddent yn caniatáu'r cysylltedd ar draws ein storïau ehangach gyda ffitiad i farchnadoedd y gall rhanddeiliaid a chymunedau unigol ddymuno adeiladu arnynt.

Yn sicr mae angen llywio a darparu cymorth proffesiynol a phlatfform canolog. Serch hynny, mae tensiwn posibl rhwng darparu'r maes canolog hwnnw a darparu ar gyfer platfform y gellir ei siapio trwy gynnwys gan BBaChau iddynt eu hunain, sy'n hyblyg i'w hanghenion tra'i fod yn parhau'n gyson. Er hynny, nid dewis naill ai/neu mohono, gan y bydd meysydd gweithgaredd sy'n addas ar gyfer dull gweithredu trefnus canolog Croeso Cymru, ac eraill ble gellir ymgymryd â'r brand ar gyfer marchnata segmentiedig.

Mae cam i'w groesawu at 'farchnata digidol yn gyntaf' wedi'i amlinellu yn y cynllun, mae hefyd yn dal i fod o'r brig i lawr. Mae gwefan Croeso Cymru gyda porth ddigidol sy'n darparu hwb ar gyfer fideo, darluniau, ffeithluniau, logos a deunyddiau ategol eraill i fusnesau eu lawrlwytho a'u defnyddio.

Mae bachau canolog yn negeseuon pwysig, wedi'u cytuno'n glir ac mae taflu tuag allan yn hanfodol i fanteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo Cymru, megis ag yng Nghwpan y Byd 2022.

Er hynny, mae problem hefyd os nad yw BBaChau a sectorau yn gallu ymgysylltu â'r brand ar eu telerau eu hunain, gan fod hynny'n darparu cyfryngau ar gyfer marchnata cyfoedion ac yn darparu ar gyfer darpariaeth cynnwys wedi'i llunio ar gyfer marchnadoedd segmentiedig. Mae angen ymrwymiad i ddull gweithredu datganoledig wedi'i seilio ar ddull gweithredu mwy ffynhonnell agored sy'n caniatáu i BBaChau ddefnyddio'r brand yn hytrach na model 'hawlfreintedig' ceidwad porth. Gallai technoleg gael ei harneisio'n hawdd i ddarparu ar gyfer cysondeb yr un pryd â chaniatáu i'r brand gael ei ddefnyddio'n well gan fusnesau unigol.

[15] Digital Tourism Think Tank, 'Think Digital Repositioning-the-destination-digital-first-visit-wales-site-redesign: Interview with Jon Munro, Digital Director and Strategist at Visit Wales (November 2019); available at: https://www.thinkdigital.travel/opinion/repositioning-the-destination-digital-first-visit-wales-site-redesign/

Gall porth a chanolfan ar-lein 'Croeso Cymru' gael ei ehangu ymhellach i greu lle i arbrofi ac felly i BBaChau ddefnyddio'r sgiliau y maent wedi'u meithrin yn ystod y pandemig o dargedu eu marchnata ar-lein, a harneisio'r sgiliau hynny i frand ehangach Cymru. Dylid ymestyn porth Croeso Cymru i 'borth dylunio' llawn a all ganiatáu i BBaChau mewnlofnodi, cytuno i'r datganiad ac adduniad gwerthoedd a chytundebau data ar ddefnyddio cynnwys, gan roi mwy o ryddid iddynt drin templedi ychwanegu eu rhai eu hunain. brandio ac adrodd eu stori eu hunain gan ddefnyddio eu cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr (fideo, ffotograffau ac yn y blaen) i ganiatáu mwy o hyblygrwydd. O bosibl byddai'n darparu hefyd ar gyfer olrhain a rheoli data i fesur llwyddiant. Dylid cadw'r lefel oruchwylio gan fynd i'r afael â defnydd amhriodol, gydag adduned ymgofrestru'n darparu pwniadau 'meddal' yn erbyn hyn.

### Gallai mwy o berchenogaeth BBaChau ar y brand arwain at:

- Lledaenu'r brand yn well.
- Marchnata segmentiedig gwell – naill ai yn ôl sector oherwydd cynigion eu hunain BBaChau, neu yn ôl lleoliad gan roi blas lleol ar frandio Cymreig.
- Dadlau dros y gwerthoedd y mae'r brand yn eu hyrwyddo yn well.

**Argymhellion**

- Dylai brandio a rheoli cynnwys fod ar sail model datganoledig i sicrhau y gellir cyrchu cynnwys a marchnata o gronfa fwy gwasgaredig o ddelweddau a storïau.
- Dylai'r hyb Ddigidol gael ei ehangu i alluogi BBaChau greu cynnwys a deunyddiau eu hunain ar gyfer eu marchnata eu hunain o dan frand Cymru.
- Byddai'r cynnwys hwn yn cael ei fonitro a'i fesur wedyn ar gyfer meysydd newydd o farchnata llwyddiannus drwy ddull gweithredu datganoledig sy'n ymorol am ddefnyddio profiad ac arbenigedd BBaChau eu hunain yn eu marchnadoedd eu hunain i helpu dull gweithredu cyffredinol Croeso Cymru.
- Byddai mynediad gan BBaChau i'r hyb digidol i lunio eu marchnata eu hunain yn ddibynnol ar ymgofrestru â'r adduned a'r cod ymddygiad, ar ledaenu unrhyw adduned ymwelydd a dylai Defnyddwyr gytuno ar fonitro data gan Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru i olrhain ymgyrchoedd llwyddiannus.
- Dylai cyfieithu am ddim gael ei drafod fel opsiwn trwy gydol y broses yma.

# 4. DATBLYGU TWRISTIAETH

Mae busnesau twristiaeth a lletygarwch yn ffurfio maes allweddol ond maes nas gwerthfawrogir ddigon yn aml i ddatblygu sgiliau – yn aml dyma swydd gyntaf pobl sy'n wynebu'r cyhoedd, ac mae meysydd o botensial i'w datblygu ar sgiliau, o arbenigaethau i farchnata a sgiliau gwyrdd. Byddai meysydd o'r fath i'w datblygu yn meithrin capasiti yn y diwydiant hefyd ac yn arwain at ddiwydiant cryfach yn ei gyfanrwydd. Nododd y Comisiwn Gwaith Teg y diwydiant twristiaeth fel un o'r sectorau a effeithir gan gyflog ac amodau isel, a gwaith tymhorol. Mae'r dull gweithredu a amlinellwn uchod yn cynnig cyfleoedd i drosoleddu'r system sgiliau i gefnogi'r twf yng nghapasiti BBaCh ac mewn marchnata a digidol mewn BBaChau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a lletygarwch.

Mae hyn wedi'i gysylltu â phroblem twf – yn ein harolwg cyn etholiad cyffredinol Cymru, y busnesau bach hynny yn y sector llety a'r sector gwasanaethau bwyd a oedd â dyheadau twf, gyda 28% yn gobeithio tyfu'n llawer llai na phob sector arall gyda 44% o fusnesau'n ymorol am dyfu eu busnes. Mae llanw ymchwyddol yn codi pob cwch.

Mater allweddol yma yw natur dymhorol pethau. Rydym wedi trafod rhai o'r ffyrdd y mae marchnata a rheoli'n eistedd gyda'i gilydd wrth ddylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr, ond gellir eu defnyddio hefyd i ddylanwau ar ba bryd a ble dylai twristiaid ymweld.

> *"Rydym wedi dweud bob amser fod angen inni farchnata Cymru ar gyfer y cyfnodau llai prysur. Mae angen inni ddangos traethau gwag a mynyddoedd eirllyd ar y ffilm yma gan fod llawer o bobl yn wirioneddol hoffi dod ar yr adeg honno o'r flwyddyn, a byddai'n llawer gwell ganddynt wneud hynny na dod pan fydd hi'n hollol orlawn o draffig. Mae'n ateb diben yr holl bobl leol a'r busnes twristiaeth."*
>
> **Atyniad Natur, Gogledd-Orllewin Cymrus**

Pwysleisiwyd pwysigrwydd bachau thematig a diwrnodau y tu allan i'r tymor hefyd, gydag un cyfranogwr yn codi enghraifft Diwrnod Santes Dwynwen fel nawddsant cariadon Cymru ar Ionawr 25ain fel enghraifft dda a ddefnyddiwyd yn y gorffennol gan Croeso Cymru.

Tra bod datblygiadau technolegol wedi helpu i yrru rhai o'r heriau'n ddiweddar, mae'n wir hefyd eu bod yn rhan o'r ateb hefyd. O ran gorlenwi, caiff atebion digidol trwy aps teithio – megis y rhai a ddefnyddir ym mharc cenedlaethol Yellowstone, eu defnyddio i osgoi tagfeydd, a gwasgaru ymwelwyr ar draws gwahanol fynedfeydd trwy'r parc. Mae'n darparu hefyd ar gyfer system docynnu ac amserlennu ac ar gyfer gwybodaeth amser real am gyfnodau prysur ac yn darparu mannau prydferth neu weithgareddau amgen.

Gall hyn fod yn fodd hefyd i ddarparu cynghorion ar ddiogelwch ac ymddygiad a hyrwyddo negeseua ehangach. Ond o bosibl, a gyda digon o ddata ar ddewisiadau, mae'n debygol y gall atebion digidol trwy symudol, Realiti Rhithwir, a Realiti Estynedig, ddarparu pyrth at brofiadau wedi'u seilio ar ddewisiadau personol ymwelwyr, gan symud oddi wrth analog i ddigidol, ac felly ddarparu profiad wedi'i guradu fwy. Fel y mae cyfranogwr grŵp ffocws yn ei awgrymu:

> *"Pan oeddwn yn cyrraedd yn ôl ym Maes Awyr Caerdydd roedd yna'r poster A1 mawr wrth ichi ddod i mewn i neuadd y dyfodiaid. Ond i mi, mae digidol yn ychwanegu at hynny fel yr un porth i mewn i'n gwlad... Mae gan ddigidol ran enfawr i'w chwarae yn hynny. Yn hytrach na rhywbeth analog ac – nid yw'n mynd i newid i boster o Ogledd Cymru ac yna boster o Orllewin Cymru – gall (y porth) newid a bod yn ddynamig yn dibynnu ar anghenion unigol a thuag at wahanol leoedd i'r rheini sy'n boblogaidd iawn. Felly, byddai'n wirioneddol dda cael rhai o'r lleill yn cael eu cydnabod yn y lleoedd hynny hefyd.*
> *Felly mae pyrth a braenaru digidol yn beth enfawr i mi."*
>
> **Cwmni Technoleg, De Cymru**

Mae technoleg yn hanfodol bwysig ac yn cynnig potensial aruthrol. Mae'n gofyn hefyd fod cydgysylltu a seilwaith yn ei le i gefnogi'r system y mae'r ymwelydd yn ei defnyddio. Megis gydag atebion eraill a godwyd yn yr adroddiad hwn, maent yn atgyfnerthu ei gilydd, ac mae technoleg yn ddibynnol ar waith ehangach i wireddu'r potensial hwn. Mae strategaeth frandio Digidol yn Gyntaf a Chanolfan Ragoriaeth Llywodraeth Cymru'n ddechrau da ond mae'n gofyn am bileri cefnogaeth ehangach ar draws meysydd polisi eraill i ddatblygu a harneisio data a thechnoleg i'w defnyddio at reoli twristiaeth yn well

- Dylai Llywodraeth Cymru drafod defnydd Ap Croeso Cymru, gan drafod ei ddefnydd fel porth digidol ac wrth ddarparu cysylltiadau di-dor â phwniadau ymddygiad a chynghorion diogelwch i ymwelwyr, data amser real ar gyfnodau brig ymwelwyr ac ardaloedd amgen i ymweld â nhw, a rheoli a gwthio i hyrwyddo ffyrdd mynediad gwahanol i ardaloedd, yn ogystal â chysylltiadau at wybodaeth am drafnidiaeth.
- Dylai hyn ymorol am sut y gallwn ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd trwy ymagwedd ehangach ar farchnata a defnyddio (er enghraifft) defnydd eu hunain BBaChau a threfi unigol o'r system i fwyhau curadaeth leol o'r profiad ymwelwyr.

Nodwyd bod y broblem yn un a oedd yn ddibynnol ar faterion ehangach a wnelo â gweithgaredd yn yr ardal:

> *"Ceisiwch chi fynd i Ben Llŷn ym mis Tachwedd neu fis Ionawr neu fis Chwefror a 'does dim ar agor. Yr unig beth ar agor ydy siop y pentref...Mae'n sefyllfa iâr ac wy. Ni all yr atyniadau aros ar agor am nad oes digon o bobl i'w llenwi. Ond ni allwn gael pobl i'w llenwi am nad oes dim i'w wneud."*
>
> **Darparwr llety, Gogledd Cymru**

Felly, tra bo pawb yn cydnabod yr angen i wasgaru twristiaid trwy gydol y flwyddyn – ac i farchnata weithio i reoli twristiaeth fel hyn mae'n gofyn hefyd am ymgyrch i breimio busnesau yn yr ardaloedd hynny i fod yn barod ar gyfer twristiaid yn y mannau hynny, ac yn hyderus y byddant yn gallu masnachu. Tra bod hwn yn brosiect tymor hir, edrychwn yn awr ar sut y gall hyn weithio'n ymarferol o ran marchnata a rheoli trwy ŵyl banc newydd ar y penwythnos o gwmpas Mawrth 1af, Dydd Gŵyl Dewi.

### Dydd Gŵyl Dewiy

Un ffordd y gallwn edrych ar sut y gallai hyn weithio'n ymarferol yw canolbwyntio ar ddiwrnod sy'n gweithio'n dda ar gyfer marchnata Cymru – Dydd Gŵyl Dewi – a sut y gall hwn gael ei ddefnyddio fel hyn.

Yn 2022 cyflwynodd Jiwbilî Platinwm y Frenhines ŵyl banc newydd ar gyfer eleni. Mae PwC Research yn awgrymu y byddai trawiad economaidd gŵyl newydd gryn dipyn yn llai nag amcangyfrifon blaenorol ac yn amcangyfrif bod y gost i'r DU yn agosach i £831 miliwn – tua £500 miliwn yn fyr o ragolygon y Llywodraeth. Awgrymwyd y gallai hyn fod hyd yn oed yn is petai'r ŵyl banc newydd yn cael ei threfnu ar gyfer dydd Gwener.

Mae yna gonsensws cynyddol ynghylch y posibilrwydd o ŵyl banc Dydd Gŵyl Dewi yng Nghymru, ond mae hon yn drafodaeth sydd eto i ddenu'r gymuned fusnes. Dylid cydnabod bod unrhyw ŵyl newydd, er yn nodweddiadol yn derbyn cefnogaeth boblogaidd ymhlith unigolion, yn golygu her economaidd wirioneddol i rai busnesau a rhaid peidio â thanbrisio hyn, ac mae angen dadansoddi'r effeithiau.

Serch hynny, rydym yn cydnabod bod i'r cynnig o ŵyl gefnogaeth drawsbleidiol yn y Senedd ac felly mae'n bosibilrwydd realistig – ond gallai gael ei wneud hefyd gyda'r bwriad o adeiladu'r sector twristiaeth a phreimio busnesau yn gynnar.

Gallai'r 1af o Fawrth fod yn fodd i gicdanio'r tymor ymweld ac ymorol am adeiladu tymor hirach. Gallai ymgyrch farchnata ymorol am ddweud 'Ymwelwch â Chymru o'r 1af Mawrth!' i'w gwneud yn glir y byddai hwn yn amser dymunol i ymweld.

Fel y mae ein grŵp ffocws yn ei ddweud, cawn ein peledu'n aml gan luniau sy'n dangos pa mor boblogaidd yw lleoedd – felly traethau llawn yn yr haf, tyrfaoedd ar safleoedd ac felly ymlaen.

Byddai hyn ag angen blaengynllunio ac ymgysylltu sylweddol i gael cytundeb busnesau i helpu i wthio – a llunio – y deunyddiau. Byddai ag angen ymrwymiad hefyd i fusnesau gymryd y fenter o fod yn barod i weithredu o'r dyddiad hwnnw. Gŵyl Banc Dydd Gŵyl Dewi fel opsiwn a allai o bosibl ysgogi galw o fewn Cymru tra'i bod yn rhoi marchnad sylfaenol i fusnesau ar gyfer gweithredu.

Byddai i hyn y fantais o greu ymgyrch ar gyfer gweddill y flwyddyn ar ymddygiad twristiaeth foesegol a gosod Cymru fel cyrchfan twristiaid foesegol.

Yn ddiamau mae yna heriau sylweddol mewn unrhyw gynnig ar gyfer gŵyl newydd y mae angen eu cydnabod yn y drafodaeth yn ei gylch. Er hynny, ni fu diffyg dadansoddiad o'r manteision economaidd yn fuddiol hyd yn hyn. Mae'n gynnig sydd ag angen cymaint o 'ben' ag o 'galon.'

**Argymhellion:**

- Mae yna gonsensws cynyddol ar gyfer Gŵyl Banc Dydd Gŵyl Dewi sydd â chefnogaeth drawsbleidiol yng Nghymru.
- Mae angen bod dadansoddiad o'r manteision economaidd ac effaith unrhyw ŵyl banc bosibl.
- Byddai angen i hyn alinio gyda datblygiad mwy tymor hir ehangach tuag at ddiwydiant gydol y flwyddyn a datblygu sgiliau, a phreimio busnesau ar gyfer gweithgaredd.
- Dylai'r marchnata ar gyfer unrhyw ŵyl arfaethedig hyrwyddo Dydd Gŵyl Dewi fel amser tawelach i ymweld.

# CASGLIAD: GELERT, MODEL UNFED GANRIF AR HUGAIN

Ar noson dywyll yn 1802 ym mherfeddion tywyllaf Eryri roedd dau ddyn yn cario carreg fawr. A dweud y gwir, fe wnaethant benderfynu ei bod yn rhy drwm a chawsant hyd i un lai a fyddai'n ateb eu diben.

Roedd gan yr arweinydd gynllun. Roedd rheolwr-denant Gwesty Beddgelert (Gwesty'r Royal Goat bellach) ym mhentref bach Beddgelert wedi gweld cyfle mewn datblygiad cyfoes gerllaw. Saith milltir i ffwrdd roedd gweithwyr wedi'u cyflogi ar brosiect seilwaith enfawr yn creu morglawdd, mewn ras i ddarparu'r cyswllt porthladd i'r hyn a fyddai yn y pen draw yn llinell reilffordd Llundain, a fyddai'n cael ei defnyddio wedyn i ffurfio'r cyswllt tyngedfennol o dir mawr Prydain i Iwerddon.

Roedd y Rhamantwyr wedi newid y ddirnadaeth o gopaon mynyddoedd Eryri o ddigroeso iawn i leoedd gwyllt, prydferth o'r iawn ryw i ffwrdd oddi wrth byd mwyfwy peirianeiddiedig a threfol dynoliaeth.

Roedd hon yn farchnad newydd i ddenu am y tymor hir, gyda'r prosiect i adeiladu'r hyn a fyddai'n dref Porthmadog yn y diwedd yn dod i ben yn 1811. Er ei fod heb ei gyflawni, roedd yn feddwl blaengar gan ei bod wedi'i hadeiladu gyda'r gobaith o gyswllt rhwng Cymru ac Iwerddon, gan ddarparu ar gyfer canolfan ymwelwyr tymor hir.

At hyn, ychwanegodd y gwestywr mentrus ei coup de grace – adrodd storïau. Byddai'r garreg yr oeddynt yn ei chario yn gwneud fel bedd stori'r ci dewr, Gelert, a laddwyd yn ei anterth gan ei feistr, Llywelyn, Tywysog Cymru, a gamgymerodd y gwaed ar enau Gelert fel gwaed ei faban bach, yn hytrach na gwaed corff y blaidd yng nghornel ei luest hela. Roedd y ci dewr wedi achub y baban rhag yr ymosodwr ond fe'i lladdwyd gan y Tywysog byrbwyll.

Byddai'r gwestywr yn talu i fardd crwydrol am ysgrifennu stori Gelert i farchnata'r ardal – hyn oll wedi'i osod o gwmpas enw'r pentref wedi'i frandio fel 'Beddgelert'.

Mae'n dal i weithio fel pot mêl i dwristiaeth yng nghanol Eryri – serch hefyd gyda rhai anawsterau o ran tai lleol a brofir gan lawer o ardaloedd eraill.

Fel y nododd un aelod o'n grŵp ffocws "Mae Beddgelert yr union beth, onid yw? Am ei fod yn fyth a wnaed i ddod â phobl i mewn."

Ond mae cynhyrchu stori Gelert yn cynnig gwersi yma ar gyfer entrepreneuriaeth twristiaeth a lletygarwch llwyddiannus, gan fanteisio ar amodau marchnad sy'n newid ac anghenion defnyddwyr, gan fanteisio ar fanteision naturiol y lle, gan alinio â modernedd, technoleg a graddfeydd a daearyddiaeth sy'n newid, dysgu oddi wrth enghreifftiau a storïau byd-eang eraill, a gwneud ein storïau lleol ein hunain i'w cyflwyno i'r byd.

Mae storïau o'r fath yn annatod i'n dealltwriaeth o'n hunain, ond hefyd i sut ydym yn cyflwyno ein hunain i eraill. Ar ben hynny, mae darparu'r strategaeth a'r platfform i BBaChau gymryd rhan wrth lunio'r storïau hyn iddyn nhw eu hunain yn gallu darparu ffyrdd newydd i fusnesau lleol ddatblygu eu hunain, eu gweithwyr, a'r lleoedd y maent yn darparu rôl mor allweddol ynddyn nhw.

# ATODIAD: METHODOLEG

Fe wnaeth FSB Cymru gynnal cyfres o grwpiau ffocws, gan ymorol am ddeall yr ymatebion ansoddol i'r anawsterau presennol. Y nod oedd dod â grŵp amrywiol o fusnesau at ei gilydd gan ymdrin â'r economi ymwelwyr o wahanol onglau, ac o draws gwahanol ardaloedd o Gymru i ddarparu dealltwriaeth eang ei sylfaen o'r cyfleoedd a'r heriau y mae angen i strategaeth twristiaeth fynd i'r afael â nhw, a chynigion pendant ar gyfer ymateb.

Fe wnaeth yr FSB gynnal trafodaeth grŵp ffocws hefyd gyda'n huned busnesau Polisi Cymru, i gael sylfaen eang o ddealltwriaeth o'r ymateb gan y sector BBaCh.

Mae'r adroddiad hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ddata arolwg yr FSB a data arolwg annibynnol ehangach.

© Ffederasiwn y Busnesau Bach

fsb.org.uk/wales

federationofsmallbusinesses

@fsb_wales

@fsb_uk

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn diwyg arall e-bostiwch:
accessability@fsb.org.uk

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio neu fel arall, heb ganiatâd yr FSB ymlaen llaw. Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau cywirdeb y ffeithiau a'r data a gynhwysir yn y cyhoeddiad hwn, ni ellir derbyn dim cyfrifoldeb gan yr FSB am wallau neu hepgoriadau neu'u canlyniadau. Mae erthyglau sy'n ymddangos yn yr adroddiad wedi'u hysgrifennu mewn termau cyffredinol yn unig. Ni fwriedir iddynt fod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r materion a godwyd ac ni ddylid dibynnu arnynt at unrhyw ddibenion penodol. Dylai darllenwyr geisio cyngor proffesiynol priodol ynghylch cymhwysiad y materion a godir mewn unrhyw erthygl i'w hamgylchiadau penodol.

Gellir lawrlwytho'r adroddiad hwn o FSB Cymru.

100% Recycled Paper